

# Rhaglen Gyflawn



**Cyd-Bwyllgor Corfforedig  
Gogledd Cymru  
North Wales  
Corporate Joint Committee**

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL CBC Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**2.30 y.h., DYDD LLUN, 13EG GORFFENNAF, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

(Am fynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni)

Pwynt Cyswllt

**Sera Jane Whitley**

**[serajanewhitley@gwynedd.llyw.cymru](mailto:serajanewhitley@gwynedd.llyw.cymru)**

## **IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL CBC Y GOGLEDD**

### **Aelodau a phleidlais**

#### **Y Cynghorwyr**

|                |                                  |
|----------------|----------------------------------|
| Ieuan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn              |
| Craig ab Iago  | Cyngor Gwynedd                   |
| Mike Priestley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy   |
| Barry Mellor   | Cyngor Sir Ddinbych              |
| Glyn Banks     | Cyngor Sir y Fflint              |
| David Bithell  | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

### **Aelodau Cyfetholedig – Heb bleidlais**

|                |                         |
|----------------|-------------------------|
| Angela Jones   | Parc Cenedlaethol Eryri |
| Henry Bradshaw | Trafnidiaeth Cymru      |

### **Swyddogion Cyswllt Cyngorau Cyfansoddol**

|                     |                                  |
|---------------------|----------------------------------|
| Huw Percy           | Cyngor Sir Ynys Môn              |
| Dafydd Wyn Williams | Cyngor Gwynedd                   |
| Geraint Edwards     | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy   |
| Emlyn Jones         | Cyngor Sir Ddinbych              |
| Katie Wilby         | Cyngor Sir y Fflint              |
| Darren Williams     | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

### **Swyddogion yn bresennol**

|                |                                  |
|----------------|----------------------------------|
| Alwen Williams | Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor     |
| Mark Watkins   | Corfforedig y Gogledd            |
|                | Pennaeth Gwasanaethau            |
|                | Cyfreithiol/Swyddog Monitro      |
| Helen Edwards  | Dirprwy Swyddog Monitro          |
| Dewi Morgan    | Prif Swyddog Cyllid              |
| David Hole     | Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r CBC |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2026/27

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2026/27.

## 3. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2026/27

I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2026/27.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION

5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2026 fel rhai cywir.

## 7. CYFLWYNIAD: RHWYDWAITH GOGLEDD CYMRU

Trafnidiaeth Cymru a Network Rail i gyflwyno.

## 8. MONITRO A GWERTHUSO

10 - 50

Alwen Williams, Prif Weithredwr ac Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth i gyflwyno'r adroddiad.

## 9. ARCHWILIAD CYNLLUNIO TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL

51 - 53

Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth i gyflwyno'r adroddiad.

## 10. TREFNIADAU GWNEUD PENDERFYNIADAU AR GYFER 54 - 57

## **RHEOLI'R GRONFA DRAFNIDIAETH RANBARTHOL YN YSTOD Y FLWYDDYN**

Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth i gyflwyno'r adroddiad.

---

## IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL CBC GOGLEDD CYMRU 23/03/2026

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd David Bithell (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Cadeirydd).

**Y Cynghorwyr:**

Ieuan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Craig ab Iago (Cyngor Gwynedd), Mike Priestley (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Barry Mellor (Cyngor Sir Ddinbych), a Glyn Banks (Cyngor Sir y Fflint).

**Aelodau Cyfetholedig (Heb Bleidlais):**

Keira Sweeney (Parc Cenedlaethol Eryri) a Henry Bradshaw (Trafnidiaeth Cymru).

**Swyddogion Cyswllt Cynghorau Cyfansoddol:**

Huw Percy (Cyngor Sir Ynys Môn), Gerwyn Jones (Cyngor Gwynedd), Dylan Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Emlyn Jones (Cyngor Sir Ddinbych), Katie Wilby (Cyngor Sir y Fflint) a Gwen Thomas (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Swyddogion yn bresennol:**

Mark Watkins (Swyddog Monitro), Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Swyddog S151), Adam Graham (Uwch Swyddog Trafnidiaeth), Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth), a Sera Whitley (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Eraill yn bresennol:**

Ben George (Trafnidiaeth Cymru), Lee Robinson (Trafnidiaeth Cymru), Cynghorydd Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), a Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Parc Cenedlaethol Eryri).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Dafydd Wyn Williams (Cyngor Gwynedd) gyda Gerwyn Jones yn dirprwyo
- Angela Jones (Parc Cenedlaethol Eryri) gyda Keira Sweeney yn dirprwyo
- Alwen Williams (Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd)
- Geraint Edwards (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) gyda Dylan Jones yn dirprwyo
- Darren Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2025 fel rhai cywir.

## 5. CYFLWYNIAD: PANELI YMGYNGHOROL RHWYDWAITH-T

Cyflwynwyd diweddariad ar Paneli Ymgynghorol Rhwydwaith-T gan Ben George (Trafnidiaeth Cymru).

## 6. CYFLWYNIAD: MASNACHFREINIO BYSIAU

Cyflwynwyd diweddariad ar Masnachfreinio Bysiau gan Lee Robinson (Trafnidiaeth Cymru).

### PENDERFYNWYD

Y bydd Trafnidiaeth Cymru yn darparu'r canlynol i'r Is-bwyllgor:

- Amserlenni ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd
- Proses gymeradwyo y cytunwyd arni – proses y Cabinet a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Awdurdodau Lleol a threfniadau ariannu, o ystyried bod Awdurdodau Lleol yn cyfrannu at gefnogi'r rhwydwaith bysiau ar draws y rhanbarth

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Dim i'w nodi.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd diweddariad ar Masnachfreinio Bysiau gan Trafnidiaeth Cymru.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cyflwyniad hwn yn berthnasol oherwydd bod y rhwydwaith yn cael ei baratoi ar gyfer masnachfreinio bysiau.

Mynegwyd pryder am gyllid a ddarparwyd gan yr awdurdodau lleol, yn enwedig ynghylch pa warant y mae awdurdodau lleol yn ei dderbyn a pha fewnbwn sydd gan awdurdodau lleol i'r broses. Eglurwyd nad oedd awdurdodau lleol yn gwario ar rwydwaith bysiau yn y blynyddoedd blaenorol ond bellach maent yn cyfrannu ychydig gannoedd o filoedd o bunnoedd bob blwyddyn fel rhan o setliad y Dreth Cyngor. Nodwyd bod hyn wedi arwain at rwydwaith bysiau da a bod pobl wedi croesawu'r bysiau ychwanegol mewn cymunedau.

Gofynnwyd faint o'r cyllid fydd yn mynd tuag at agwedd biwrocrataidd masnachfreinio bysiau. Cadarnhawyd, o'r £240 miliwn, sef cost y system gyfan ledled Cymru, fod £20 miliwn yn dod o gyfraniad awdurdodau lleol unigol. Cadarnhawyd ymhellach nad yw'r cyllid yn mynd tuag at gost biwrocratiaeth, a bod yr holl gyllid a dderbynnir gan awdurdodau lleol at fasnachfreinio bysiau yn cael ei roi tuag at y rhwydwaith. Ychwanegwyd bod angen cadarnhau y manylder i ddangos y gwerth y mae pob awdurdod lleol unigol yn ei gael.

Tynnwyd sylw at y risgiau o danberfformio, ac yn benodol y risg o lle gallai llwybrau bysiau gael eu torri. Cadarnhawyd na fyddai llwybrau bysiau'n cael eu torri, gan fod cyfle i fasnachu gorberfformio un ardal gyda thanberfformio ardal arall. Mynegwyd pryder am y posibilrwydd y bydd rhaid i siroedd eraill roi cymhorthdal i unrhyw sir sy'n parhau i danberfformio, a sut y byddai hynny yn cael effaith o ran lleihau'r rhwydwaith.

Cadarnhawyd bod y gwasanaethau arbennig, er enghraifft y *Sherpa'r Wyddfa* a'r *bws fflecsi*, wedi'u cynnwys yn y gwasanaethau masnachfreinio.

Gofynnwyd am sicrwydd ynghylch y broses gymeradwyo, ac os oes angen i gymeradwyaeth pob rhwydwaith fynd trwy Gabinet yr awdurdod lleol unigol ac yna'r CBC. Cadarnhawyd mai penderfyniad yr awdurdodau lleol unigol ydyw, ac y bydd Trafnidiaeth Cymru yn darparu cefnogaeth ar gyfer unrhyw benderfyniad ar y broses. Cydnabuwyd bod y broses gymeradwyo wedi mynd trwy'r Cabinet ac wedi'i chymeradwyo gan y CBC yn Ne-orllewin Cymru. Amlygwyd bod y rhan fwyaf o'r Aelodau yn gefnogol o fasnachfreinio bysiau ond bod angen gwell dealltwriaeth a sicrwydd o'r gofynion gweithredol cyn cymeradwyo.

Eglurwyd fod Trafnidiaeth Cymru yn categoreiddio y cyllid a dderbynnir gan awdurdodau lleol i ddwy elfen, sef trafndiaeth addysg a thrafnidiaeth cymunedol. Nodwyd bod yr elfen trafndiaeth addysg yn cynnwys elfennau megis mynd a phlant i'r ysgol, ac atgoffwyd yr Aelodau bod yr awdurdodau lleol yn talu i Trafnidiaeth Cymru i weithredu'r gwasaniaeth hwn ar eu rhan. Cydnabuwyd bod contractau cwmnïau bysiau llai, er enghraifft y rhai sy'n cael eu defnyddio i fynd a phlant i'r ysgol, yn llai o risg a bod Trafnidiaeth Cymru yn ymwybodol o ba weithredwyr sy'n weithgar ac yn gynhyrchiol yn y farchnad trafndiaeth addysg.

Cadarnhawyd y bydd y rhwydwaith sylfaenol yn parhau i weithredu heb unrhyw welliant, ond y bydd cyllid yr awdurdod lleol yn ariannu teithiau na fyddent yn gweithredu fel arall. Nodwyd mai'r gobaith dros amser, yw y bydd refeniw'r blwch tocynnau yn cynyddu, trwy gynyddu nifer y teithwyr yn hytrach na chynyddu prisiau, ac y gellir ail-fuddsoddi'r refeniw hwn i'r rhwydwaith. Hysbyswyd yr aelodau y bydd swyddogion Trafnidiaeth Cymru yn adnabod y rhwydwaith presennol, a gweithio i'w wneud yn fwy effeithlon ac effeithiol er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Diolchwyd am y cyflwyniad.

## **7. ADRODDIAD CHWE MIS YR IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth.

### **PENDERFYNWYD**

**Ystyriwyd yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

### **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol bod adroddiad diweddar yn cael ei gynhyrchu ddwywaith y flwyddyn.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan amlygu bod Adran 5 o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gwaith y mae'r Is-bwyllgor ac Uchelgais Gogledd Cymru wedi'i wneud dros y chwe mis diwethaf. Adroddwyd bod hyn yn cynnwys y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2025 a'r broses a ystyriwyd ar gyfer dyrannu'r Gronfa Trafnidiaeth Rhanbarthol a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Cadarnhawyd bod cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru wedi'i dderbyn ers hynny a bod cyllid wedi'i sicrhau. Ychwanegwyd bod yr adroddiad hefyd yn cynnwys ymatebion i ymgynghoriadau gan sefydliadau partner. Eglurwyd bod y rhain yn cynnwys *Liverpool City Region*, sydd wrthi'n ymgynghori ar eu Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, a Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru sy'n edrych i ddiwygio eu canllawiau teithio.

Eglurwyd bod yr adroddiad hefyd yn edrych ar berfformiad ariannol ar y gwaith sy'n gysylltiedig â Thrafnidiaeth. Nodwyd bod recriwtio staff yn cael ei ystyried, gan ddefnyddio ffi rheoli prosiect. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y ffigyrau hyn wedi'u trafod yn yr Is-bwyllgor hwn o'r blaen.

## **8. CYFETHOL I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Claire Incledon, Dirprwy Swyddog Monitro (dros dro).

### **PENDERFYNWYD**

**Argymhell i'r CBC ei fod yn cyfethol Aelodau (heb bleidlais) ar yr Is-bwyllgor i gefnogi ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau.**

**Bod yr isod yn cael eu cyfethol i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol am flwyddyn arall:**

- **Cynrychiolydd aelod o Barc Cenedlaethol Eryri sy'n gyfrifol am y portffolio trafnidiaeth.**
- **Cynrychiolydd o Drafnidiaeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dros ranbarth y Gogledd.**

### **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cynnal cryfder sgiliau ac arbenigedd ar yr Is-bwyllgor trwy adnewyddu ei aelodaeth i barhau i gynnwys cynrychiolaeth Aelod cyfetholedig gyda phrofiad penodol ac arbenigedd ar drafnidiaeth o safbwynt rhanbarthol a chenedlaethol.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Is-bwyllgor a darparwyd cyd-destun. Eglurwyd bod cyfetholiadau'n cael eu cynnal yn flynyddol, a gofynnwyd i'r Aelodau gyfethol cynrychiolydd o Parc Cenedlaethol Eryri a chynrychiolydd o Trafnidiaeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dros ranbarth Gogledd Cymru.

Eglurwyd bod cyfethol Aelodau o du allan i'r awdurdodau lleol yn cefnogi a chryfhau sgiliau ac arbenigedd yr Is-bwyllgor, a bod adnewyddu aelodau cyfetholedig o Parc Cenedlaethol Eryri a Thrafnidiaeth Cymru yn darparu arbenigedd ar drafnidiaeth o safbwynt rhanbarthol a chenedlaethol.

Tynnwyd sylw bod hwn yn gyfle i'r Is-bwyllgor adnabod rhanddeiliaid allweddol y maent yn eu hystyried a fyddai o fudd i waith yr Is-bwyllgor. Eglurwyd bod canllawiau statudol yn annog cynnwys swyddogion eraill wrth gyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Is-bwyllgor.

Atgoffwyd yr Aelodau nad yw'r ddau aelod cyfetholedig ychwanegol yn cael pleidleisio ar yr Is-bwyllgor ac nad ydynt wedi'u cynnwys at ddibenion cworwm.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 15:35.

---

Cadeirydd



---

**ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL  
13 Gorffennaf, 2026**

---

**TEITL:** Monitro a Gwerthuso

**AWDUR:** Alwen Williams, Prif Weithredwr  
Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth

---

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

- 1.1. Ystyried y cynllun Monitro a Gwerthuso ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r cynlluniau a ariennir gan y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol (RTF).

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

- 2.1. Cymeradwyo'r Cynllun Monitro a Gwerthuso ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r cynlluniau a ariennir gan y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid perthnasol.

**3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD**

- 3.1. Pan oedd y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) wrthi'n datblygu rhaglen o gynlluniau i'w hariannu drwy'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau sy'n nodi "Bydd angen i'r CBC sefydlu systemau a chael digon o wybodaeth iddynt oruchwylio pob prosiect yn y rhaglen yn effeithiol, monitro'r hyn a gyflawnir yn ôl yr amserlen ac adrodd am unrhyw newid i'r rhaglen waith ac/neu'r proffil gwariant."
- 3.2. Mae set wahanol o gyfarwyddiadau desg a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys sut y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig werthuso canlyniadau mewn perthynas â'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

- 4.1. Roedd y Cynllun Monitro a Gwerthuso yn un o blith amryw o ddogfennau yn ymwneud â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, a gymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ym mis Gorffennaf 2025. Gallwch ei weld yma: [cynllun monitro a gwerthuso](#).
- 4.2. Mae'r canllawiau ychwanegol y cyfeirir atynt yn Adran 3 yn gosod gofynion monitro ychwanegol ar y Cyd-bwyllgor i fonitro'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau a ariennir gan y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

**5. GOFYNION MONITRO**

- 5.1. Mae'r gwahanol fathau o fonitro a gwerthuso sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru wedi'u nodi yn Nhabl 1.

Tabl 1

| Math o waith monitro a gwerthuso'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol | Amserlen                               | Beth sy'n debygol o fod ei angen                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | Pwy sy'n nodi'r hyn sydd ei angen?                              |
|---------------------------------------------------------------------|----------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|
| Monitro grant y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol                    | Adrodd yn ystod y flwyddyn             | Adroddiadau chwarterol ar wariant/cynnydd                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Llywodraeth Cymru (gyda mewnbwn gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig) |
| Adroddiad Cynnydd Blyneddol ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol   | Blyneddol (adrodd ar ddiwedd blwyddyn) | Adrodd yn flynyddol ar gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, e.e. allbynnau sydd wedi'u cyflawni, beth sydd wedi'i gyflawni, manteision, beth weithiodd yn dda, gwersi a ddysgwyd.<br><br>Mae'n debygol o gynnwys adroddiad ar:<br><ul style="list-style-type: none"> <li>Gyflawni prosiectau a Rhaglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, e.e. monitro ar lefel y cynllun fel nifer y defnyddwyr, a</li> <li>Mesurau / dangosyddion y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, e.e. Mesurau Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.</li> </ul> Gall rhai mathau o gynlluniau fod â gofynion monitro penodol, e.e. Teithio Llesol.<br><br>Llai manwl na'r adroddiad gwerthuso llawn. | Llywodraeth Cymru (gyda mewnbwn gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig) |
| Gwerthuso (cynnydd) y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol              | Ar ôl tair blynedd                     | Gwerthusiad mwy cynhwysfawr o gynnydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn gyffredinol, e.e. a yw'r Cynllun hwn yn cyflawni ei ganlyniadau, yn darparu gwerth am arian, pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud, unrhyw ganlyniadau anfwriadol a beth y gellir ei wella. Bydd canlyniadau'r gwerthusiad yn llywio'r Cynllun nesaf.<br><br>Mae'n debygol o gynnwys adrodd ar holl fesurau/dangosyddion y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, yn ogystal ag ar gyflawni Rhaglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a chynnydd yn erbyn polisïau ac amcanion y Cynllun.<br><br>Mwy o bwyslais ar ganlyniadau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r                                              | CBC (gyda mewnbwn gan Lywodraeth Cymru)                         |

|  |  |                                                      |  |
|--|--|------------------------------------------------------|--|
|  |  | effaith tymor hwy na'r Adroddiad Cynnydd Blynnyddol. |  |
|--|--|------------------------------------------------------|--|

5.2 Mae mesurau polisi trafndiaeth yn y Cynllun Monitro a Gwerthuso yn dod o Fframwaith Monitro Strategaeth Drafndiaeth Cymru ac wedi'u haddasu i gyd-fynd ag amcanion SMART a chanlyniadau Fframwaith Asesiad Llesiant Integredig (IWBA) y Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol. Mae'r fframwaith yn taro cydbwysedd rhwng ehangder yr amcanion a'r angen ymarferol i fod yn rheoli'r gwaith monitro a gwerthuso o fewn cyfyngiadau adnoddau awdurdodau lleol. Er mwyn canolbwyntio ymdrechion lle mae hynny'n ychwanegu'r gwerth mwyaf, mae mesurau wedi'u grwpio i gategoriâu allweddol a chategoriâu atodol, gan ddilyn strwythur Fframwaith Monitro Strategaeth Drafndiaeth Cymru. Dyma'r 15 mesur allweddol:

1. LUP-3: Agosrwydd i gludiant cyhoeddus
2. DC-5: Gweithio o bell
3. WC-5: Pobl sy'n teithio'n llesol pob wythnos
4. BC-1: Prydlondeb bysus a choetsis
5. BC-6: Cyfansoddiad y fflyd (cyfran y bws yn ôl math o injan)
6. IM-2: Teithiau i orsaf drenau wrth gerdded, beicio neu ar fws
7. EBC-1: Cyfran y modd ar gyfer cludiant cyhoeddus
8. EBC-2: Teithiau i atyniadau ymwelwyr ar gludiant cyhoeddus
9. EBC-4: Y galw a'r cyflenwad ar gyfer gwefru cerbydau trydan
10. PF-2: Cyfansoddiad y fflyd (cyfran y cerbydau cludo nwyddau yn ôl math o injan)
11. RSP-1: Cyfran o gyfanswm y cilomedrau yn ôl math o gerbyd
12. RSP-2: Pellter a deithiwyd fesul person
13. RSP-5: Damweiniau ffordd
14. RSP-6: Cerbydau sydd ag allyriadau isel iawn neu ddim allyriadau
15. AD-1: Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector drafndiaeth

5.3 Bwriad y mesurau atodol yw cefnogi a darparu cyd-destun ychwanegol i'r mesurau allweddol (e.e., fforddiadwyedd, hygrychedd, mynediad heb risiau mewn gorsafoedd, cyhoeddiadau AV ar fysiau, ansawdd aer, sŵn, bioamrywiaeth, ac ati).

5.4 Ar gyfer Blwyddyn 1 y Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol, dylai'r gwaith monitro a gwerthuso ganolbwyntio ar y mesurau allweddol yn unig. Dylid blaenoriaethu'r mesurau allweddol gan mai'r rhain fydd yn cael yr effaith fwyaf wrth fonitro a gwerthuso'r amcanion a'u bod yn cyd-fynd yn agos â Fframwaith Monitro Strategaeth Drafndiaeth Cymru - bydd hyn yn fanteisiol i'r adnoddau angenrheidiol sydd eu hangen i gwblhau gweithgareddau monitro a gwerthuso.

5.5 Yn unol â Chynllun Monitro a Gwerthuso'r Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol, disgwylir i fesurau atodol gyfrannu at werthusiad mwy cynhwysfawr o'r system drafndiaeth a pherfformiad y Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol o Flwyddyn 3 ymlaen. Felly, dylid monitro y mesurau hyn yn flynyddol o Flwyddyn 2 ymlaen, lle bo hynny'n bosibl ac yn ymarferol, gan ystyried y gofynion o ran adnoddau ar awdurdodau lleol. Dylid adrodd arnynt ar ddiwedd Blwyddyn 3, o leiaf, i weld a yw'r Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol yn cyflawni'r deilliannau a fwriedir.

## 6. OFFERYN MONITRO A GWERTHUSO GOGLEDD CYMRU

6.1 Mae Arup, yr ymgynghoriaeth a gomisiynwyd gan Uchelgais Gogledd Cymru i gefnogi'r Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol, wedi datblygu Offeryn Monitro a Gwerthuso i Ogledd Cymru - gweler Atodiad 1. Bydd hyn yn safoni setiau data, ffynonellau a dulliau cyfrifo. Mae'n nodi'r mesurau a'r dangosyddion, gan gynnwys data cysylltiedig a methodolegau cyfrifo.

- 6.2 Cesglir data yn lleol, ar draws Cymru a'r DU, ac mae'r amrywiad hwn i'w weld yn Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru. Dylid sefydlu neu gadarnhau gwaelodlin ar gyfer mesurau allweddol, gan dynnu ar waith monitro Trafnidiaeth Cymru/Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru (W-NTS), gyda blynyddoedd gwaelodlin presennol yn cael eu darparu lle bo hynny ar gael. Lle bo hynny'n briodol, mae targedau wedi'u gosod o fewn Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru ar gyfer mesurau allweddol, yn seiliedig ar amcanion SMART. Mae'r rhain yn darparu dyheadau meintiol ar gyfer newid yn y rhanbarth, a lle bo'n briodol ac/neu yn ymarferol, maent yn cyd-fynd â'r targedau a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

## **7. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU**

- 7.1 Mae monitro a gwerthuso effeithiol yn gofyn am weithredu cydlynol rhwng awdurdodau lleol, y Cyd-bwyllgor Corfforedig, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae Tabl 2, yn seiliedig ar wybodaeth gan Gyfarwyddiadau Desg i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, yn dangos pa sefydliad sydd yn gyfrifol am bob agwedd ar y gwaith monitro.



| GWEITHGAREDD                       | SWYDDOGION<br>PENODOL YR<br>AALI                                      | RHEOLWR<br>RHAGLENNI Y CBC                                                                                                                                          | CBC                                                                  | ARWEINYDD<br>TRAFNIDIAETH<br>RHANBARTHOL<br>TrC                                                                                                                                  | ARWEINYDD<br>TRAFNIDIAETH<br>RHANBARTHOL<br>LIC                      | ARBENIGWYR<br>GWEITHGARWCH<br>LIC a TrC                              | LIC |
|------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------|-----|
| Allbynnau a dangosyddion allweddol | Sefydlu'r allbynnau a'r dangosyddion allweddol ar gyfer pob prosiect. | Adolygu'r dystiolaeth/wybodaeth gan yr Allau a chadarnhau'r allbynnau a'r dangosyddion allweddol ar gyfer pob prosiect. Casglu gwybodaeth mewn crynodeb rhanbarthol | Adolygu'r allbynnau a'r dangosyddion allweddol ar gyfer y rhanbarth. | Cymorth technegol i'r adolygiad gan Arweinydd Llywodraeth Cymru o'r allbynnau a'r dangosyddion allweddol ar gyfer y rhanbarth.<br>Cefnogi Rheolwr Rhaglenni'r CBC hefyd o bosib. | Adolygu'r allbynnau a'r dangosyddion allweddol ar gyfer y rhanbarth. | Adolygu'r allbynnau a'r dangosyddion allweddol ar gyfer y rhanbarth. |     |



| GWEITHGAREDD              | SWYDDOGION<br>PENODOL YR<br>AALI                                                                                                                                                                                                                                                                                      | RHEOLWR<br>RHAGLENNI Y CBC                                                                                                 | CBC                                                | ARWEINYDD<br>TRAFNIDIAETH<br>RHANBARTHOL<br>TrC | ARWEINYDD<br>TRAFNIDIAETH<br>RHANBARTHOL<br>LIC       | ARBENIGWYR<br>GWEITHGARWCH<br>LIC a TrC                                                                                             | LIC                                                                                                                             |
|---------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------|-------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Adroddiadau<br>chwarterol | Paratoi<br>adroddiadau<br>chwarterol ar<br>gyfer pob<br>prosiect, a<br>gyflwynir i LIC,<br>gyda chopi i<br>Reolwr<br>Rhaglenni y CBC<br>ac Arweinydd<br>Trafnidiaeth<br>Rhanbarthol<br>TrC. Manylu ar y<br>cynnydd a'r<br>gwariant hyd<br>yma a'r cynnydd<br>a'r gwariant a<br>ragwelir yn y<br>chwarter<br>canlynol. | Adolygu'r wybodaeth<br>yn yr adroddiad<br>chwarterol gan bob<br>ALI (gan gynnwys<br>cofnodion ariannol a<br>thystiolaeth). | Monitro cynnydd<br>yn erbyn cyflawni<br>a gwariant |                                                 | Monitro<br>cynnydd yn<br>erbyn cyflawni a<br>gwariant | Adolygu'r<br>wybodaeth yn yr<br>adroddiad<br>chwarterol gan<br>bob ALI (gan<br>gynnwys<br>cofnodion<br>ariannol a<br>thystiolaeth). | Monitro cynnydd<br>yn erbyn cyflawni<br>a gwariant<br><br>Gwirio, ardystio a<br>thalu hawliadau<br>ariannol gan CBC<br>ac ALLau |

| GWEITHGAREDD                | SWYDDOGION<br>PENODOL YR<br>AALI                                                                                                                                      | RHEOLWR<br>RHAGLENNI Y CBC                                                                                                                              | CBC                                                                                          | ARWEINYDD<br>TRAFNIDIAETH<br>RHANBARTHOL<br>TrC                                                                              | ARWEINYDD<br>TRAFNIDIAETH<br>RHANBARTHOL<br>LIC                                               | ARBENIGWYR<br>GWEITHGARWCH<br>LIC a TrC                                                                                             | LIC                                                                                                                                                                                                                                           |
|-----------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Rheoli Newid/<br>Amrywiadau | Nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder wrth gyflawni ac yn y gwariant a ragwelir, a chynnig diwygiadau i Raglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ystod y flwyddyn  | Adolygu'r diwygiadau arfaethedig i sicrhau cydymffurfiaeth â Rhaglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Ceisio cytundeb ar ddiwygiadau gan ALLau a CBC | Cynghori LIC ar yr holl ddiwygiadau arfaethedig i Raglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. | Cymorth technegol i adolygu'r diwygiadau arfaethedig i sicrhau cydymffurfiaeth â Rhaglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. | Adolygu'r newidiadau arfaethedig i Raglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.                 | Cefnogi adolygiad o'r diwygiadau arfaethedig i sicrhau cydymffurfiaeth â Rhaglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ôl yr angen. | Ystyried a chymeradwyo/gwrthod newidiadau arfaethedig i'r Rhaglen Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a rhoi gwybod i'r CBC am y canlyniad. Rhoi cyngor i'r CBC ar unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i Raglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. |
| Sicrhau Ansawdd             | Rheoli'r prosiect yn erbyn safonau ansawdd ar gyfer dylunio/cyflawni a gwariant arian cyhoeddus yn unol â'r Rhaglen Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y cytunwyd arni. | Monitro'r hyn mae'r rhaglen yn ei gyflawni yn erbyn safonau ansawdd.                                                                                    |                                                                                              | Cymorth technegol i gynorthwyo Rheolwr Rhaglenni'r CBC i fonitro sut mae'r rhaglen yn cyflawni yn erbyn safonau ansawdd.     | Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd ar safonau gofynnol LIC megis gwariant arian cyhoeddus. | Darparu cymorth gyda sicrhau ansawdd i Reolwr Rhaglenni TrC a LIC yn ôl yr angen.                                                   |                                                                                                                                                                                                                                               |

| GWEITHGAREDD           | SWYDDOGION<br>PENODOL YR<br>AALI                                                                                             | RHEOLWR<br>RHAGLENNI Y CBC                                                                                                                          | CBC                                                                             | ARWEINYDD<br>TRAFNIDIAETH<br>RHANBARTHOL<br>TrC                                                              | ARWEINYDD<br>TRAFNIDIAETH<br>RHANBARTHOL<br>LIC                                    | ARBENIGWYR<br>GWEITHGARWCH<br>LIC a TrC                                                                                                                                                                       | LIC                                                                             |
|------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------|
| Risg                   | Adnabod risg y<br>prosiect a<br>chynnig<br>mesurau lliniaru                                                                  | Monitro mesurau risg<br>a lliniaru.<br><br>Cynghori LIC a'r CBC<br>ar risgiau a mesurau<br>lliniaru gan<br>ddefnyddio<br>adroddiadau<br>chwarterol. | Monitro mesurau<br>risg a lliniaru                                              | Monitro<br>mesurau risg a<br>lliniaru                                                                        | Monitro<br>mesurau risg a<br>lliniaru                                              | Monitro<br>mesurau risg a<br>lliniaru yn ôl yr<br>angen.                                                                                                                                                      |                                                                                 |
| Monitro a<br>Gwerthuso | Monitro<br>prosiectau drwy<br>gydol eu<br>datblygiad.<br><br>Gwerthuso<br>prosiectau am<br>dair blynedd ar<br>ôl eu cwblhau. | Adolygu canlyniadau<br>monitro a gwerthuso<br>ar lefel prosiect a<br>rhaglen.                                                                       | Adolygu<br>canlyniadau<br>monitro a<br>gwerthuso ar lefel<br>prosiect a rhaglen | Cymorth<br>technegol i<br>adolygu<br>canlyniadau<br>monitro a<br>gwerthuso ar<br>lefel prosiect a<br>rhaglen | Adolygu<br>canlyniadau<br>monitro a<br>gwerthuso ar<br>lefel prosiect a<br>rhaglen | Cefnogi<br>adolygiad o<br>waith monitro a<br>gwerthuso ar<br>lefel prosiect yn<br>ôl yr angen.<br><br>Cefnogaeth<br>bosibl i Allau<br>wrth ddatblygu<br>a gweithredu<br>cynlluniau<br>monitro a<br>gwerthuso. | Adolygu<br>canlyniadau<br>monitro a<br>gwerthuso ar lefel<br>prosiect a rhaglen |

| GWEITHGAREDD      | SWYDDOGION<br>PENODOL YR<br>AALI                                                                                                             | RHEOLWR<br>RHAGLENNI Y CBC                      | CBC                                                                                  | ARWEINYDD<br>TRAFNIDIAETH<br>RHANBARTHOL<br>TrC                                                         | ARWEINYDD<br>TRAFNIDIAETH<br>RHANBARTHOL<br>LIC                            | ARBENIGWYR<br>GWEITHGARWCH<br>LIC a TrC                                                | LIC                                                                                  |
|-------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|
| Monitro blynyddol | Darparu gwybodaeth tuag at adroddiad cynnydd blynyddol.<br><br>Paratoi Adroddiadau Cynnydd Blynyddol ar gyfer prosiectau a ariennir gan LIC. | Adolygu gwybodaeth gan ALLau                    | Cymeradwyo'r adroddiad cynnydd blynyddol a'i gyflwyno i LIC                          | Cynorthwyo Rheolwr Rhaglenni'r CBC i gasglu gwybodaeth gan ALLau a pharatoi adroddiad cynnydd blynyddol | Adolygu'r adroddiad cynnydd blynyddol a rhoi adborth ar feysydd i'w gwella | Cefnogi gwaith adolygu adroddiadau cynnydd blynyddol a darparu adborth yn ôl yr angen. | Adolygu'r adroddiad cynnydd blynyddol a rhoi adborth ar feysydd i'w gwella           |
| Gwersi a ddysgwyd | Rhoi sylw i'r gwersi a ddysgwyd ar lefel prosiect                                                                                            | Datblygu'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer y rhaglen | Adolygu'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer y rhaglen ac ystyried a gweithredu argymhellion | Cynorthwyo Rheolwr Rhaglenni'r CBC i ddatblygu gwersi a ddysgwyd ar gyfer y rhaglen                     | Adolygu'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer y rhaglen                             | Cefnogi gwaith paratoi gwersi a ddysgwyd yn ôl yr angen.                               | Adolygu'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer y rhaglen ac ystyried a gweithredu argymhellion |

Tabl 2



- 7.2 Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth Trafnidiaeth Cymru, yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r CBC a'i Awdurdodau Lleol i adnabod a rheoli unrhyw reolaeth newid angenrheidiol cyn gynted â phosibl, ar sail y diweddariadau chwarterol. Disgwylir i draciwr canolog gael ei reoli ochr yn ochr ag archwiliadau cydymffurfio a chasglu tystiolaeth. Mae'n bosibl y bydd angen cytuno ar amrywiadau yn y flwyddyn rhwng yr holl bartïon, ac mae'n debygol y bydd hyn yn gofyn am fod yn hyblyg wrth weithio ac wrth wneud penderfyniadau. Felly, efallai y bydd Rheolwr Rhaglenni'r CBC yn dymuno edrych ar y cyfle i'r CBC ddirprwyo rhai pwerau gwneud penderfyniadau i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol.

## **8. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

- 8.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol sy'n deillio o'r adroddiad hwn.

## **9. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

- 9.1. Mae'r cylch gorchwyl yn ei gwneud yn ofynnol i'r is-bwyllgor gynghori ar wasanaeth trafndiaeth integredig yng Ngogledd Cymru drwy fonitro ac adolygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, i gynnwys monitro cynnydd ac effaith rhaglenni a phrosiectau perthnasol, a gwneud argymhellion i'r CBC.

---

### **ATODIADAU:**

Atodiad 1 – Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru

---

### **YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

#### **i. Swyddog Monitro:**

“Mae'r Adroddiad yn amlinellu'r cynlluniau arfaethedig yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae'r trefniadau arfaethedig yn cefnogi rôl oruchwylio'r CJC wrth fonitro cyflawni rhaglenni ac yn ymddangos yn gyson â Chylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor. Byddai unrhyw gynnig yn y dyfodol i ddirprwyo pwerau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â rheoli rhaglenni yn gofyn am gadarnhau trefniadau llywodraethu priodol. Nid oes unrhyw faterion cyfreithiol eraill yn codi o'r argymhellion a geisir.”

#### **ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

“Mae datblygiad Cynllun Monitro a Gwerthuso yn gam pwysig yn natblygiad y CTRh. Mae'r camau a amlinellir yn y Cynllun M&G drafft yn ymddangos yn rhesymol a realistig a nid oes gennyf gwrthwynebiadau i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol”

## Nodyn Technegol

|                  |                                                |
|------------------|------------------------------------------------|
| Teitl y prosiect | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| Rhif y gwaith    | 302160-00                                      |
| Cyfeirnod ffeil  |                                                |
| cc               |                                                |
| Paratowyd gan    | Allan Pitt                                     |
| Dyddiad          | 11 Chwefror 2026                               |
| Pwnc             | Nodyn Canllaw Monitro a Gwerthuso              |

4 Stryd Pen y Pier, Capital Waterside, Caerdydd CF10 4QP Y Deyrnas Unedig

t +44 29 2047 3727 d +44 29 2076 9069

[arup.com](http://arup.com)

### 1. Cyflwyniad a phwrpas y Nodyn Canllaw Monitro a Gwerthuso hwn

Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso (M&E) Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) Gogledd Cymru (gweler **Atodiad A**) wedi'i baratoi i gefnogi'r gwaith o weithredu'r RTP yn llwyddiannus dros gyfnod ei gynllun 2025–2030, a'i Gynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP), a'i Arfarniad Llesiant Integredig (IWBA) ategol. Dylai M&E ddechrau o ddyddiad mabwysiadu'r RTP.

Mae gan Uchelgais Gogledd Cymru (fel Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC)) gyfrifoldeb statudol am baratoi'r RTP (a'i ddogfennau ategol) ac mae'n atebol am ei weithredu o gyhoeddi'r RTP (Gorffennaf 2025), gan weithio gyda'r chwe awdurdod lleol (Ynys Môn, Wrecsam, Conwy, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, a Gwynedd) sy'n gyfrifol am gyflawni cynlluniau.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru hefyd yn gweithio gyda phartneriaid perthnasol (megis Trafnidiaeth Cymru, Network Rail, Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGCC) a Llywodraeth Cymru) i helpu i hyrwyddo ei uchelgeisiau ar gyfer prosiectau rheilffyrdd a chefnffyrdd, sydd y tu allan i gwmpas cyflawni awdurdodau lleol.

Mae'r Gronfa Drafnidiaeth Rhanbarthol (RTF) wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru i ddod â'r wyth cronfa drafnidiaeth wahanol bresennol at ei gilydd<sup>1</sup> i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau a blaenoriaethau RTDP yn unol â pholisïau RTP. Wrth wneud hynny, mae Uchelgais Gogledd Cymru fel CBC yn gweithio gyda'i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru gyda chefnogaeth Trafnidiaeth Cymru i gydlyn a chyflwyno rhaglen Blwyddyn 1 o gynlluniau cyfalaf a refeniw yn ôl maes gweithgaredd (megis diogelwch ar y ffyrdd, teithio llesol, trafndiaeth gyhoeddus, ULEV, priffyrdd).

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau cyflwyno i Gyd-bwyllgorau Corfforedig (gweler **Atodiad B**) yn esbonio sut y bydd Cyd-bwyllgorau yn cynnwys crynodeb o'r cynigion yn rhaglen

<sup>1</sup> Cronfa Trafnidiaeth Lleol, Cronfa Ffyrdd Gwydn, Cronfa Teithio Llesol, Cronfa Diogelwch ar y Ffyrdd (Refeniw), Cronfa Diogelwch ar y Ffyrdd (Cyfalaf), Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, Cronfa Ffyrdd Heb eu Mabwysiadu, Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn

Rhif gwaith

302160-00

Dyddiad

11 Chwefror 2026

2026-27 wedi'u rhestru yn nhrefn blaenoriaeth i gyflawni prosiectau cyfalaf a refeniw, gan gynnwys allbynnau sydd i'w cyflawni ar gyfer pob cynllun (RTF Atodiad 3) a chrynodeb rhanbarthol o'r allbynnau ar gyfer 2026-2027 yn ôl dangosydd allweddol (RTF Atodiad 4).

Mae'r canllawiau yn esbonio sut "Bydd angen i'r Gyd-bwyllgorau Corfforedig sefydlu systemau a chael digon o wybodaeth iddynt oruchwyllo pob prosiect yn y rhaglen yn effeithiol, monitro cyflawniad yn ôl amserlen ac adrodd am unrhyw newid i'r rhaglen waith a/neu broffil gwariant." Ar wahân, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu Cyfarwyddiadau Desg i Gyd-bwyllgorau (gweler **Atodiad C**) gan gynnwys sut i werthuso deilliannau mewn cysylltiad â'r RTF.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwahanol fathau o fonitro a gwerthuso a fydd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

Tabl 1-1 Tabl 1 – Crynodeb o RTP M&E1

| Math o RTP M&E                                                                        | Amserlen                   | Beth sy'n debygol o fod ei angen                                                                   | Pwy sy'n nodi'r hyn sydd ei angen                                  |
|---------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------|
| <b>Monitro grantiau RTP</b><br><b>(yn gysylltiedig â moderneiddio grantiau [RTF])</b> | Adrodd yn ystod y flwyddyn | Adroddiadau chwarterol ar wariant/cynnydd (neu gyfwerth fel y'i pennir gan foderneiddio grantiau). | Llywodraeth Cymru<br>(gyda mewnbwn gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig) |

Rhif gwaith

302160-00

Dyddiad

11 Chwefror 2026

| Math o RTP<br>M&E                                        | Amserlen                                      | Beth sy'n debygol o fod ei<br>angen                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Pwy sy'n nodi'r hyn<br>sydd ei angen                                          |
|----------------------------------------------------------|-----------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Adroddiad<br/>Cynnydd<br/>Blynyddol (APR)<br/>RTP</b> | Blynyddol<br>(adrodd<br>diwedd y<br>flwyddyn) | <p>Adroddiadau blynyddol ar gyflawni RTP, e.e. allbynnau a gyflawnwyd, beth sydd wedi'i gyflawni, buddion, beth weithiodd yn dda, gwersi a ddysgwyd.</p> <p>Mae'n debygol o gynnwys adroddiad ar:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>Cyflwyno prosiectau a rhaglenni RTDP, e.e. monitro ar lefel cynllun megis nifer y defnyddwyr, a</li><li>Mesurau/dangosyddion RTP, e.e. Mesurau Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS).</li></ul> <p>Gall rhai mathau o gynlluniau fod â gofynion monitro penodol, e.e. Teithio Llesol.</p> <p>Llai manwl na'r adroddiad gwerthuso llawn.</p> | <p>Llywodraeth Cymru</p> <p>(gyda mewnbwn gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig)</p> |

Rhif gwaith

302160-00

Dyddiad

11 Chwefror 2026

| Math o RTP<br>M&E                                                                       | Amserlen              | Beth sy'n debygol o fod ei<br>angen                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | Pwy sy'n nodi'r hyn<br>sydd ei angen                                         |
|-----------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Gwerthuso<br/>(cynnydd) y<br/>Cynllun<br/>Trafnidiaeth<br/>Rhanbarthol<br/>(RTP)</b> | Ar ôl tair<br>blynedd | <p>Gwerthusiad mwy cynhwysfawr o gynnydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn gyffredinol, e.e. a yw'r Cynllun hwn yn cyflawni ei ganlyniadau, yn darparu gwerth am arian, pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud, unrhyw ganlyniadau anfwriadol a beth y gellir ei wella. Bydd canlyniadau'r gwerthusiad yn llywio'r RTP a'r NTDP nesaf.</p> <p>Mae'n debygol o gynnwys adrodd ar holl fesurau/dangosyddion y RTP, yn ogystal ag ar gyflawni rhaglenni RTDP a chynnydd yn erbyn polisiau ac amcanion y RTP.</p> <p>Mwy o bwyslais ar ganlyniadau'r RTP a'r effaith tymor hwy na'r APR.</p> | <p>Cyd-bwyllgorau Corfforedig</p> <p>(gyda mewnbwn gan Lywodraeth Cymru)</p> |

Fel y cyfryw, mae gweddill y Nodyn Canllaw Monitro a Gwerthuso hwn yn nodi:

- Adran 2: Sut i ddefnyddio a gweithredu Cynllun M&E RTP Gogledd Cymru; ac
- Adran 3: Y dull o ran monitro a gwerthuso ar gyfer y RTF yn ystod ei raglen Blwyddyn 1 (2026/2027).

## 2. Sut i ddefnyddio a gweithredu Cynllun Monitro a Gwerthuso Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

### 2.1 Gofynion Monitro a Gwerthuso

#### 2.1.1 Canllawiau Gwerthuso Trafnidiaeth Cymru ar fonitro a gwerthuso

Mae'r Canllaw diweddaraf ar Werthuso Trafnidiaeth Cymru<sup>2</sup> (WelTAG), yn amlinellu pum cam o gynllunio ac arfarnu trafndiaeth, gan gynnwys arfarnu llesiant integredig (IWBA). Ffurflenni monitro a gwerthuso Cam 5 o WelTAG ac mae'n berthnasol i bob prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru, waeth beth fo'u graddfa. Y gofynion allweddol yw:

- Adroddiadau cynnydd blynyddol sy'n manylu ar gyflawniadau, newidiadau, gweithredu ymgysylltu, effeithiau, llwyddiannau, heriau a gwersi a ddysgwyd.
- Monitro rheolaidd i nodi risgiau yn gynnar; efallai y bydd angen gwerthusiad ôl-weithredu llawn ar brosiectau cymhleth i ddangos gwerth am arian.

#### 2.1.2 Canllawiau Llywodraeth Cymru i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar fonitro a gwerthuso

Mae Canllawiau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig<sup>3</sup> yn nodi:

- a) Rhaid i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gynnwys Cynllun Monitro a Gwerthuso sy'n dangos sut y bydd cynnydd yn rhanbarthol o ran cyflawni blaenoriaethau ac uchelgeisiau cenedlaethol Strategaeth Drafndiaeth Cymru yn cael ei fonitro, ei fesur a'u werthuso. Rhaid i hyn gynnwys cyfraniad y rhanbarth i dargedau datgarboneiddio a newid moddol cenedlaethol.
- b) Dylai'r Cynllun Monitro a Gwerthuso gynnwys cyfres o fesurau gyda gwybodaeth waelodlin ar gyfer pob un. Gall y mesurau gynnwys deilliannau ansoddol a mesurau meintiol.
- c) Dylai'r mesurau fod yn seiliedig ar y fframwaith o fesurau a ddefnyddir yn yr Arfarniad Lles Integredig (IWBA) a dylid eu diweddarau os oes angen, gan ddefnyddio Fframwaith Monitro Strategaeth Drafndiaeth Cymru ar gyfer anghenion rhanbarthol. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cyhoeddi data gaelodlin ar gyfer Fframwaith Monitro WTS ac mae'n adolygu a diweddarau hyn yn barhaus.
- d) Rhaid i CBC gyflwyno adroddiadau perfformio blynyddol ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol i Lywodraeth Cymru pob blwyddyn.
- e) Dylid paratoi gwerthusiad cynhwysfawr ar ôl tair blynedd i asesu p'un a yw'r RTP yn cyflawni ei ddeilliannau, yn darparu gwerth am arian a ph'un a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol. Dylai hyn ddilyn canllawiau cyhoeddedig ac arfer gorau ar werthuso.

<sup>2</sup> Canllaw Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), 2024. Ar gael ar-lein yn: <https://www.gov.wales/welsh-transport-appraisal-guidance-weltag>

<sup>3</sup> Cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol: arweiniad ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig, 2023. Ar gael ar-lein yn: <https://www.gov.wales/regional-transport-plans-guidance-corporate-joint-committees>

Rhif gwaith

302160-00

Dyddiad

11 Chwefror 2026

- 
- f) Bydd canlyniadau'r gwerthusiad cynhwysfawr hwn yn bwydo i mewn i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol dilynol ar gyfer pob Cyd-bwyllgor Corfforedig, a'r NTDP dilynol.

Mae disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer monitro a gwerthuso RTP wedi'u crynhoi yn Nhabl 1-1 (uchod).

## **2.2 Cyd-fynd ag amcanion cenedlaethol a rhanbarthol**

Gan ystyried WelTAG a chanllawiau Llywodraeth Cymru i Gyd-bwyllgorau Corfforedig, mae'r Cynllun monitro a gwerthuso RTP yn cynnwys cyfres o fesurau, gyda gwybodaeth waelodlin, yn seiliedig ar y fframwaith o fesurau a ddefnyddir yn yr IWBA gan ystyried ei amcanion cynaliadwyedd, ac mae'n tynnu ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS). Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y RTP a'r dogfennau ategol yn cyd-fynd ag amcanion cenedlaethol a rhanbarthol fel a ganlyn:

Rhif gwaith

302160-00

Dyddiad

11 Chwefror 2026

|                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
|----------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru<sup>4</sup></b>    | Cyhoeddwyd Llwybr Newydd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021. Mae'r Strategaeth yn nodi'r weledigaeth ar gyfer Trafnidiaeth yng Nghymru yn y dyfodol, ei blaenoriaethau yn y pum mlynedd nesaf a'i huchelgais dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae mesurau a dangosyddion Cynllun Monitro a Gwerthuso RTP yn helpu i sicrhau y bydd y RTP yn cyfrannu at gyflawni strategaeth genedlaethol Trafnidiaeth Cymru.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| <b>Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru<sup>5</sup></b> | Mae fframwaith monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS) wedi'i gynllunio i helpu i olrhain cynnydd o ran cyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau cenedlaethol. Mae'r fframwaith monitro yn cynnwys chwe mesur trawsbynciol allweddol (M1 i M6), sy'n ymwneud â themâu a nodau allweddol fel rhan o Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (Datganiad Llesiant 2021-2026 <sup>6</sup> ) sy'n ymestyn y tu hwnt i ddim ond trafnidiaeth. Mae yna 27 o fesurau ategol hefyd (S1 i S27) sydd wedi'u dylunio i gefnogi a darparu cyd-destun ychwanegol i'r mesurau allweddol. Ystyrir mai'r mesurau allweddol yw rhan bwysicaf y fframwaith o ran cefnogi nodau cyffredinol Llywodraeth Cymru o ddatgarboneiddio a newid moddol. Mae'r rhain wedi'u defnyddio yn y Cynllun Monitro a Gwerthuso RTP i sicrhau cysondeb. |
| <b>Amcanion RTP Gogledd Cymru</b>                                    | Mae'r RTP yn nodi pedwar amcan SMART allweddol sydd â'r nod o sefydlu targedau a sicrhau cysondeb rhwng blaenoriaethau RTP a WTS a nodau llesiant, fel sy'n ofynnol gan Ganllawiau RTP Llywodraeth Cymru. Y rhain yw: 1. Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol (30% erbyn 2030); 2. Gwell hygyrchedd a dewis trafnidiaeth (45% erbyn 2040); 3. Galluogi datgarboneiddio drwy newid i fflyd dim allyriadau (50% erbyn 2035); 4. Galluogi twf economaidd cynaliadwy (50% erbyn 2030). Mae mesurau a dangosyddion Cynllun Monitro a Gwerthuso RTP wedi'u cynllunio i helpu i olrhain cynnydd yn erbyn amcanion SMART.                                                                                                                                                                                            |
| <b>Amcanion Fframwaith RTP IWBA Gogledd Cymru</b>                    | Mae 12 amcan cynaliadwyedd IWBA wedi'u nodi yn unol â'r rheoliadau SEA ar gyfer asesu effeithiau posib y RTP ac i osod datblygu cynaliadwy yng nghanol y broses gwneud penderfyniadau. Mae mesurau a dangosyddion Cynllun Monitro a Gwerthuso RTP wedi'u cynllunio i helpu i olrhain cynnydd yn erbyn amcanion SMART.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |

<sup>4</sup> Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021. Ar gael ar-lein yn: <https://www.gov.wales/llwybr-newydd-wales-transport-strategy-2021>

<sup>5</sup> Adroddiad Technegol Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, 2022. Ar gael ar-lein yn: <https://tfw.wales/sites/default/files/2022-06/Wales%20Transport%20Strategy%20Monitoring%20Framework%20Technical%20Report%202022.pdf>

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru: Datganiad Llesiant 2021-2026. Ar gael ar-lein yn <https://www.gov.wales/programme-for-government-2021-to-2026-well-being-statement-html>

### 2.3 Beth fydd yn cael ei fonitro a'i werthuso?

Mae mesurau polisi trafndiaeth yn y Cynllun Monitro a Gwerthuso yn deillio o'r Fframwaith Monitro WTS ac wedi'u haddasu i gyd-fynd ag amcanion SMART a deilliannau IWBA y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r fframwaith yn taro cydbwysedd rhwng ehangder yr amcanion a'r angen ymarferol i fod yn rheoli'r gwaith monitro a gwerthuso o fewn cyfyngiadau adnoddau awdurdodau lleol. Er mwyn canolbwyntio ymdrechion lle mae hynny'n ychwanegu'r gwerth mwyaf, mae mesurau wedi'u grwpio i gategorïau *allweddol* a chategorïau *atodol*, gan ddilyn strwythur Fframwaith Monitro Strategaeth Drafndiaeth Cymru. Dyma'r 15 mesur *allweddol*:

1. LUP-3: Agosrwydd i gludiant cyhoeddus
2. DC-5: Gweithio o bell
3. WC-5: Pobl sy'n teithio'n llesol pob wythnos
4. BC-1: Prydlondeb bysus a choetsis
5. BC-6: Cyfansoddiad y fflyd (cyfran y bws yn ôl math o injan)
6. IM-2: Teithiau i orsaf drenau wrth gerdded, beicio neu ar fws
7. EBC-1: Cyfran modd ar gyfer cludiant cyhoeddus
8. EBC-2: Teithiau i atyniadau ymwelwyr ar gludiant cyhoeddus
9. EBC-4: Y galw a'r cyflenwad ar gyfer gwefru cerbydau trydan
10. PF-2: Cyfansoddiad y fflyd (cyfran y cerbydau cludo nwyddau yn ôl math o injan)
11. RSP-1: Cyfran o gyfanswm y cilomedrau yn ôl math o gerbyd
12. RSP-2: Pellter a deithiwyd fesul person
13. RSP-5: Damweiniau ffordd
14. RSP-6: Cerbydau sydd ag allyriadau isel iawn neu ddim allyriadau
15. AD-1: Allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector drafndiaeth

Bwriad y mesurau *atodol* yw cefnogi a darparu cyd-destun ychwanegol i'r mesurau allweddol (e.e., fforddiadwyedd, hygyrchedd, mynediad heb risiau mewn gorsafoedd, cyhoeddiadau AV ar fysiau, ansawdd aer, sŵn, bioamrywiaeth, ac ati).

Ar gyfer Blwyddyn 1 y RTP, dylai'r gwaith monitro a gwerthuso ganolbwyntio ar y mesurau *allweddol* yn unig. Dylid blaenoriaethu'r mesurau allweddol gan mai'r rhain fydd yn cael yr effaith fwyaf wrth fonitro a gwerthuso'r amcanion a'u bod yn cyd-fynd yn agos â Fframwaith Monitro Strategaeth Drafndiaeth Cymru, a fydd yn fanteisiol i'r adnoddau angenrheidiol sydd eu hangen i ymgymryd â gweithgareddau monitro a gwerthuso.

Yn unol â'r Cynllun Monitro a Gwerthuso RTP, disgwylir i fesurau *atodol* gyfrannu at werthusiad mwy cynhwysfawr o'r system drafndiaeth a pherfformiad y RTP o Flwyddyn 3. Felly, dylid monitro y mesurau hyn yn flynyddol o Flwyddyn 2 ymlaen, lle bo hynny'n bosibl ac yn ymarferol, gan ystyried y gofynion o ran adnoddau ar awdurdodau lleol. Dylid adrodd arnynt ar ddiwedd Blwyddyn 3, o leiaf, i weld a yw'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyflawni'r deilliannau a fwriedir.

## 2.4 Casglu data, sefydlu gwaelodlinau a gosod targedau

Er mwyn safoni setiau data, ffynonellau a dulliau cyfrifo, mae Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru<sup>7</sup> (gweler **Atodiad D**) wedi'i ddatblygu. Mae'n nodi'r mesurau a'r dangosyddion, gan gynnwys data cysylltiedig a methodolegau cyfrifo.

Cesglir data yn lleol, ar draws Cymru a'r DU, ac adlewyrchir yr amrywiad hwn o fewn Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru. Pan fo data ar gael ar lefel genedlaethol yn unig, dylid ei gymhwyso fel procsi ar gyfer meincnodi rhanbarthol. Dylid sefydlu neu gadarnhau gwaelodlinau ar gyfer mesurau **allweddol**, gan dynnu ar waith monitro Trafnidiaeth Cymru/Strategaeth Drafndiaeth Cymru ac Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru (W-NTS), gyda blynyddoedd gwaelodlin presennol yn cael eu darparu lle bo hynny ar gael.

Lle bo hynny'n briodol, mae targedau wedi'u gosod o fewn Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru ar gyfer mesurau **allweddol**, yn seiliedig ar amcanion SMART. Mae'r rhain yn darparu dyheadau meintiol ar gyfer newid yn y rhanbarth, a lle bo'n briodol a/neu yn ymarferol, maent yn cyd-fynd â'r targedau a nodir yn Strategaeth Drafndiaeth Cymru.

## 2.5 Cofnodi data a llinell amser

Dylid defnyddio Offeryn M&E Gogledd Cymru i gofnodi ac olrhain cynnydd ar gyfer mesurau a dangosyddion **allweddol** ar gyfer Blwyddyn 1. Dylid monitro mesurau **ategol** bob blwyddyn o Flwyddyn 2 ymlaen i lywio'r asesiadau o ddeilliannau RTP.

Mae Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru yn diffinio manylder y monitro ac yn pennu'r cyfrifoldeb am adrodd er mwyn ei gwneud yn glir p'un ai awdurdodau lleol neu CBC y Gogledd ddylai fod yn gyfrifol am y cyfrifiadau a'r adroddiadau sy'n gysylltiedig â'r dangosyddion, gan ystyried graddfeydd geo-ofodol monitro a gwerthuso ar gyfer gwahanol fesurau.

Yn unol â Chanllawiau RTP Llywodraeth Cymru, dylai CBC y Gogledd gyflwyno adroddiad perfformiad blynyddol ar y RTP. Mae'r gofyniad hwn yn cael ei adlewyrchu yn adran "amllder monitro" Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru. Disgwylir y bydd cofnodi cynnydd parhaus yn yr Offeryn Monitro a Gwerthuso yn helpu i lywio'r adroddiad perfformiad blynyddol.

Disgwylir y bydd canlyniadau'r gwerthusiad cynhwysfawr a gynhaliwyd ar ôl tair blynedd yn bwydo i mewn i ddatblygiad y RTP a'r NTDP dilynol.

---

<sup>7</sup> Offeryn Monitro a Gwerthuso Gogledd Cymru (2025). Ar gael ar-lein yn:  
<https://democracy.gwynedd.llyw.cymru/documents/s45492/Appendix%2017%20-%20Monitoring%20and%20evaluation%20plan.pdf>

### 3. Y dull o Fonitro a Gwerthuso ar gyfer y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol

Fel y nodir yn y cyflwyniad, er mwyn cefnogi awdurdodau lleol wrth gyflawni'r cynlluniau RTDP sy'n ceisio cyflawni'r polisiâu RTP, darperir cyllid Llywodraeth Cymru o 2026/2027 (Blwyddyn 1 y RTP) drwy'r RTF newydd.

Disgwylir i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gydlynu cynhyrchu rhaglen flynyddol o gynlluniau, mewn rôl hwyluso. Ar gyfer y flwyddyn gyntaf o gyflwyno RTP, bydd Llywodraeth Cymru yn dosbarthu dyfarniadau cyllid yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol. Ar gyfer yr holl flynyddoedd dilynol, mae'r cyfrifoldeb o ddosbarthu cyllid yn debygol o fod gyda'r CBC, gyda chyllid yn cael ei ddatganoli i'r rhanbarthau.

Darparodd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu cyflwyniadau RTF Blwyddyn 1 i Lywodraeth Cymru ar 30 Ionawr 2026, gan ddisgwyl cymeradwyaeth gyda chadarnhad ym mis Mawrth, yn barod i dynnu cyllid i lawr o 1 Ebrill dros y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru, mewn cysylltiad â'r RTF, wedi nodi allbynnau a deilliannau y bydd angen i Gyd-bwyllgorau Corfforedig a'u hawdurdodau lleol cyfansoddol fonitro ac adrodd arnynt fel rhan o weinyddu a gwerthuso'r RTF.

Mae adran 14 o ganllawiau cyflwyno RTF Llywodraeth Cymru yn nodi:

- a) **Monitro Cynllun** – rhaid monitro a gwerthuso pob cynllun. Bydd cost y cynllun unigol cyn ac ar ôl monitro yn cael ei chynnwys yng nghost y cynllun am hyd at dair blynedd ar ôl ei gwblhau. Rhaid nodi'r costau hyn yn glir a'u hymgorffori yn y rhaglen.
- b) **Rhaglen Monitro** – bydd adnoddau i gefnogi monitro rhaglenni yn cael eu nodi ar wahân.
- c) **Adrodd yn ystod y flwyddyn** – adroddir bob chwarter. Byddwn ni (Llywodraeth Cymru) yn adolygu'r cyflawniad ac yn cadw'r hawl i gyflwyno adroddiadau amlach os nad yw'r cynnydd o ran cyflawni yn foddhaol.
- d) **Monitro Blynyddol** – mae'n ofynnol i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig gynhyrchu Adroddiad Cynnydd Blynyddol i ddangos y cynnydd a'r perfformiad wrth gyflawni'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.
- e) **Arweiniad pellach** – yn cael ei ddarparu ar brosesau adrodd. Bydd canllawiau ar Adroddiadau Cynnydd Blynyddol RTP 2026-27 yn dilyn yn haf 2027.

#### 3.1 Beth fydd yn cael ei fonitro a'i werthuso?

Fel rhan o'r broses RTF, tynnodd Awdurdodau Lleol sylw at yr allbynnau a'r deilliannau disgwyledig ar gyfer cynlluniau sy'n cael eu cyflawni yn y flwyddyn ariannol gyntaf.

Rhif gwaith

302160-00

Dyddiad

11 Chwefror 2026

---

Rhif gwaith

302160-00

Dyddiad

11 Chwefror 2026

---

Tabl 3-1: Cyfraniad allbynnau a deilliannau RTF at fesurau Monitro a Gwerthuso RTP3 Mae Tabl 3-1 yn cyflwyno cyfanswm y gwerthoedd ar draws holl gynlluniau 'gwaith' 2026-27 o fewn meysydd gweithgareddau RTF, sy'n cynnwys diogelwch ar y ffyrdd (cynlluniau refeniw a chyfalaf), cerdded, olwyno a beicio, trafnidiaeth gyhoeddus, cerbydau allyriadau isel iawn a phriffyrdd. Lle bo'n berthnasol, mae allbynnau wedi'u cysylltu â'r 15 mesur Monitro a Gwerthuso allweddol ac ategol fel y'u nodir yng Nghynllun Monitro a Gwerthuso RTP (**Atodiad A**). Mae'r rhain wedi'u datblygu yn seiliedig ar Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, wedi'u haddasu i ystyried amcanion SMART ac IWBA y RTP.

Rhif gwaith

302160-00

Dyddiad

11 Chwefror 2026

Tabl 3-1: Cyfraniad allbynnau a deilliannau RTF at fesurau Monitro a Gwerthuso RTP3

| Allbynnau a Deilliannau ar gyfer BA2026-27                                                                                                                                                                                                  | Mesurau Cynllun Monitro a Gwerthuso RTP                                                                                                                                                                                                                                                                       |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 4,115 o bobl i gael eu hyfforddi ar gyfer ymyriadau diogelwch ar y ffyrdd (gan gynnwys beicwyr modur, <i>Pass Plus</i> , hyfforddiant beicio, hyfforddiant i gerddwyr ifanc)                                                                | Rhwydwaith cerdded a beicio, damweiniau ffyrdd i ddefnyddwyr teithio llesol, cyfranogwyr teithio llesol wythnosol, cynnydd mewn defnyddwyr teithio llesol, teithiau i orsafoedd rheilffordd drwy gerdded, beicio neu fws, boddhad cwsmeriaid â diogelwch wrth deithio, teithio i'r gwaith, damweiniau ffordd. |
| 15,880m o lwybr teithio llesol wedi'i adeiladu                                                                                                                                                                                              | Rhwydwaith cerdded a beicio, cyfranogwyr teithio llesol wythnosol, cynnydd mewn defnyddwyr teithio llesol, teithiau i orsafoedd rheilffordd trwy gerdded, beicio neu fws, teithio i'r gwaith, pobl sy'n cael eu poenydio'n rheolaidd gan sŵn a achosir gan drafnidiaeth.                                      |
| 11,289m o lwybr teithio llesol wedi'i wella                                                                                                                                                                                                 | Rhwydwaith cerdded a beicio, cyfranogwyr teithio llesol wythnosol, cynnydd mewn defnyddwyr teithio llesol, teithiau i orsafoedd rheilffordd trwy gerdded, beicio neu fws, teithio i'r gwaith.                                                                                                                 |
| 93 o gyfleusterau teithio llesol wedi'u gosod (fel y nodir yng nghanllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol, e.e. nifer y standiau beiciau)                                                                                                         | Rhwydwaith cerdded a beicio, argaeledd cyfleusterau parcio beiciau, cyfranogwyr teithio llesol wythnosol, cynnydd mewn defnyddwyr teithio llesol, teithiau i orsafoedd rheilffordd trwy gerdded, beicio neu fws, teithio i'r gwaith.                                                                          |
| 35 o safleoedd bws wedi'u gwella                                                                                                                                                                                                            | Mabwysiadu gwasanaethau digidol, teithiau i orsafoedd rheilffordd trwy gerdded, beicio neu fws, teithio i'r gwaith, boddhad cwsmeriaid â'u gallu i gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn annibynnol.                                                                                                     |
| Mae gwefrwyr cerbydau trydan (EV) yn cael eu gosod ar draws pob awdurdod lleol yng ngogledd Cymru. Mae gwybodaeth benodol ynglŷn â nifer a lleoliad y pwyntiau gwefru hyn yn cael ei chasglu a bydd yn cael ei diweddarau pan fydd ar gael. | Teithio i'r gwaith, galw a chyflenwad gwefru cerbydau trydan, cerbydau gydag allyriadau isel iawn neu dim allyriadau, allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafnidiaeth, lefel llygredd aer o'r sector trafnidiaeth.                                                                                          |
| 10,004m o briffyrdd yn cael eu gwella.                                                                                                                                                                                                      | Lefelau tagfeydd ar brif lwybrau, damweiniau ffyrdd.                                                                                                                                                                                                                                                          |
| 865,701 km cerbyd wedi'u tynnu fel cyfraniad at newid moddol                                                                                                                                                                                | Cyfran o gyfanswm KM yn ôl math o gerbyd, allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafnidiaeth.                                                                                                                                                                                                                  |
| 1,495.4 tonnell o allyriadau CO2 wedi'u tynnu fel cyfraniad at ddatgarboneiddio.                                                                                                                                                            | Cyfran o gyfanswm KM yn ôl math o gerbyd, allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector trafnidiaeth, lefel llygredd aer o'r sector trafnidiaeth.                                                                                                                                                                      |

Rhif gwaith

302160-00

Dyddiad

11 Chwefror 2026

| Allbynnau a Deilliannau ar gyfer BA2026-27                                               | Mesurau Cynllun Monitro a Gwerthuso RTP                            |
|------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------|
| Arbediad gwrthdrawiad bob blwyddyn:<br>Person a arbedwyd: 6.2<br>Arbediad Cost: £409,450 | Boddhad cwsmeriaid gyda diogelwch wrth deithio, damweiniau ffordd. |
| Arbediad clwyfedigion y flwyddyn:<br>Person a arbedwyd: 10.53<br>Arbediad cost: £550,877 | Boddhad cwsmer gyda diogelwch wrth deithio, damweiniau ffordd.     |

### 3.2 Rolau a chyfrifoldebau

Mae Atodiad B y Cyfarwyddiadau Desg yn nodi sut fydd **Cynllunydd Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru**, ar gyfer Monitro a Gwerthuso, yn "Olrhain cynnydd ar gynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Gynlluniau flynyddol yn unol â gofynion y gronfa, a lle bo'n briodol yn cynorthwyo i nodi risgiau a chyfleoedd, ac yn awgrymu camau gweithredu i Drafnidiaeth Cymru, y CBC a'i Awdurdodau Lleol cyfansoddol. Gwneir hyn trwy adolygu adroddiadau chwarterol a chyfarfodydd gyda'r holl bartion. Bydd hyn yn bwydo i gytundeb ar amrywiadau yn ystod y flwyddyn a Rhaglen o Gynlluniau y flwyddyn nesaf."

Bydd **Rheolwr Rhaglenni'r CBC** yn: "Olrhain cynnydd y rhaglen, cynorthwyo i nodi risgiau a chyfleoedd, ac awgrymu camau i'r CBC a'i Awdurdodau Lleol cyfansoddol."

Yna, bydd **Arweinydd Trafnidiaeth Rhanbarthol Trafnidiaeth Cymru** yn "cynorthwyo'r Awdurdodau Lleol a Rheolwr Rhaglenni'r CBC i olrhain cynnydd y rhaglen, cynorthwyo i nodi risgiau a chyfleoedd, ac awgrymu camau i'r CBC a'i Awdurdodau Lleol cyfansoddol. [Bydd yn] Goruchwyllo cynnwys Arbenigwyr Gweithgareddau Trafnidiaeth Cymru lle bo hynny'n briodol".

Yn olaf, mae'n esbonio sut fydd **Arbenigwr Gweithgareddau LIC/Trafnidiaeth Cymru** yn "Cefnogi Cynllunydd Trafnidiaeth LIC/Arweinydd Trafnidiaeth Rhanbarthol Trafnidiaeth Cymru i olrhain cynnydd y rhaglen, cynorthwyo i nodi risgiau a chyfleoedd, ac awgrymu camau i'r CBC a'i Awdurdodau Lleol cyfansoddol".

**Mae Atodiad A o Gyfarwyddiadau Desg Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r RTF yn nodi llifoedd gwaith ar gyfer gweithgareddau a'r rôl a'r tasgau ar gyfer pob rhanddeiliad dan sylw. Darperir detholiad yn**

Mae Tabl 3-2 isod yn berthnasol i'r Monitro a Gwerthuso (ond dylid darllen yr atodiad yn llawn).

Tabl 3-2 Detholiad o Atodiad A o Gyfarwyddiadau Desg Llywodraeth Cymru3

| Gweithgaredd                       | Swyddogion a enwir gan yr ALI                                                                                                                                                                                                                                               | Rheolwr rhaglenni CBC                                                                                                                                               | CBC                                                                  | Arweinydd Trafnidiaeth Rhanbarthol Trafnidiaeth Cymru                                                                                                                         | Arweinydd Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru                 | Arbenigwyr Gweithgareddau LIC a Thrafnidiaeth Cymru                                                         | LIC                                                                                                              |
|------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Allbynnau a dangosyddion allweddol | Sefydlu'r allbynnau a'r dangosyddion allweddol ar gyfer pob prosiect.                                                                                                                                                                                                       | Adolygu'r dystiolaeth/wybodaeth gan yr ALLau a chadarnhau'r allbynnau a'r dangosyddion allweddol ar gyfer pob prosiect. Casglu gwybodaeth mewn crynodeb rhanbarthol | Adolygu'r allbynnau a'r dangosyddion allweddol ar gyfer y rhanbarth. | Cymorth technegol i'r adolygiad gan Arweinydd Llywodraeth Cymru o'r allbynnau a'r dangosyddion allweddol ar gyfer y rhanbarth. Cefnogi Rheolwr Rhaglenni'r CBC hefyd o bosib. | Adolygu'r allbynnau a'r dangosyddion allweddol ar gyfer y rhanbarth. | Adolygu'r allbynnau a'r dangosyddion allweddol ar gyfer y rhanbarth.                                        |                                                                                                                  |
| Adroddiadau chwarterol             | Paratoi adroddiadau chwarterol ar gyfer pob prosiect, a gyflwynir i LIC, gyda chopi i Reolwr Rhaglenni'r CBC ac Arweinydd Trafnidiaeth Rhanbarthol Trafnidiaeth Cymru. Manylu ar y cynnydd a'r gwariant hyd yma a'r cynnydd a'r gwariant a ragwelir yn y chwarter canlynol. | Adolygu'r wybodaeth yn yr adroddiad chwarterol gan bob ALI (gan gynnwys cofnodion ariannol a thystiolaeth).                                                         | Monitro cynnydd yn erbyn cyflawni a gwariant                         |                                                                                                                                                                               | Monitro cynnydd yn erbyn cyflawni a gwariant                         | Adolygu'r wybodaeth yn yr adroddiad chwarterol gan bob ALI (gan gynnwys cofnodion ariannol a thystiolaeth). | Monitro cynnydd yn erbyn cyflawni a gwariant<br><br>Gwirio, ardystio a thalu hawliadau ariannol gan CBC ac ALLau |

Rhif gwaith

302160-00

Dyddiad

11 Chwefror 2026

| Gweithgaredd            | Swyddogion a enwir gan yr ALI                                                                                                                                         | Rheolwr rhaglenni CBC                                                                                                                                    | CBC                                                                                          | Arweinydd Trafnidiaeth Rhanbarthol Trafnidiaeth Cymru                                                                        | Arweinydd Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru                                          | Arbenigwyr Gweithgareddau LIC a Thrafnidiaeth Cymru                                              | LIC                                                                                                                                                                                                                                             |
|-------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Rheoli Newid/Amrywiadau | Nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder wrth gyflawni ac yn y gwariant a ragwelir, a chynnig diwygiadau i Raglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ystod y flwyddyn. | Adolygu'r diwygiadau arfaethedig i sicrhau cydymffurfiaeth â Rhaglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Ceisio cytundeb ar ddiwygiadau gan ALLau a CBC. | Cynghori LIC ar yr holl ddiwygiadau arfaethedig i Raglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. | Cymorth technegol i adolygu'r diwygiadau arfaethedig i sicrhau cydymffurfiaeth â Rhaglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. | Adolygu'r newidiadau arfaethedig i Raglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.                 | Cefnogi adolygiad o'r diwygiadau arfaethedig i sicrhau cydymffurfiaeth â'r RTDP yn ôl yr angen.  | Ystyried a chymeradwyo/gwrt hod newidiadau arfaethedig i'r Rhaglen Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a rhoi gwybod i'r CBC am y canlyniad. Rhoi cyngor i'r CBC ar unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r Rhaglen Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. |
| Sicrhau Ansawdd         | Rheoli'r prosiect yn erbyn safonau ansawdd ar gyfer dylunio/cyflawni a gwariant arian cyhoeddus yn unol â'r Rhaglen Cynllun Trafnidiaeth                              | Monitro'r hyn mae'r rhaglen yn ei gyflawni yn erbyn safonau ansawdd.                                                                                     |                                                                                              | Cymorth technegol i gynorthwyo Rheolwr Rhaglenni'r CBC i fonitro sut mae'r rhaglen yn cyflawni yn erbyn safonau ansawdd.     | Darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd ar safonau gofynnol LIC megis gwariant arian cyhoeddus. | Darparu cymorth gyda sicrhau ansawdd i Reolwr Rhaglenni Trafnidiaeth Cymru a LIC yn ôl yr angen. |                                                                                                                                                                                                                                                 |

Rhif gwaith

302160-00

Dyddiad

11 Chwefror 2026

| Gweithgaredd                             | Swyddogion a enwir gan yr ALI                      | Rheolwr rhaglenni CBC                                                                                                            | CBC                                              | Arweinydd Trafnidiaeth Rhanbarthol Trafnidiaeth Cymru                                             | Arweinydd Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru | Arbenigwyr Gweithgareddau LIC a Thrafnidiaeth Cymru                                                | LIC                                              |
|------------------------------------------|----------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------|
| Risg                                     | Rhanbarthol y cytunwyd arni.                       |                                                                                                                                  |                                                  |                                                                                                   |                                                      |                                                                                                    |                                                  |
|                                          | Adnabod risg y prosiect a chynnig mesurau lliniaru | Monitro mesurau risg a lliniaru.<br><br>Cyngori LIC a'r CBC ar risgiau a mesurau lliniaru gan ddefnyddio adroddiadau chwarterol. | Monitro mesurau risg a lliniaru                  | Monitro mesurau risg a lliniaru                                                                   | Monitro mesurau risg a lliniaru                      | Monitro mesurau risg a lliniaru yn ôl yr angen.                                                    |                                                  |
| Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) | Monitro perfformiad cynlluniau yn erbyn KPIs       | Adolygu gwybodaeth am berfformiad yn erbyn KPIs.                                                                                 | Adolygu gwybodaeth am berfformiad yn erbyn KPIs. | Cymorth technegol ar gyfer adolygu gwybodaeth a ddarperir gan ALLau ar berfformiad yn erbyn KPIs. | Adolygu gwybodaeth am berfformiad yn erbyn KPIs.     | Cefnogi adolygiad o'r wybodaeth a ddarperir gan ALLau ar berfformiad yn erbyn KPIs yn ôl yr angen. | Adolygu gwybodaeth am berfformiad yn erbyn KPIs. |

Rhif gwaith

302160-00

Dyddiad

11 Chwefror 2026

| Gweithgaredd        | Swyddogion a enwir gan yr ALI                                                                                                                | Rheolwr rhaglenni CBC                                                | CBC                                                                 | Arweinydd Trafnidiaeth Rhanbarthol Trafnidiaeth Cymru                                                   | Arweinydd Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru                     | Arbenigwyr Gweithgareddau LIC a Thrafnidiaeth Cymru                                                                                                                          | LIC                                                                      |
|---------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------|
| Monitro a gwerthuso | Monitro prosiectau drwy gydol eu datblygiad.<br><br>Gwerthuso prosiectau am dair blynedd ar ôl eu cwblhau.                                   | Adolygu canlyniadau monitro a gwerthuso ar lefel prosiect a rhaglen. | Adolygu canlyniadau monitro a gwerthuso ar lefel prosiect a rhaglen | Cymorth technegol i adolygu canlyniadau monitro a gwerthuso ar lefel prosiect a rhaglen                 | Adolygu canlyniadau monitro a gwerthuso ar lefel prosiect a rhaglen      | Cefnogi adolygiad o waith monitro a gwerthuso ar lefel prosiect yn ôl yr angen.<br><br>Cefnogaeth bosibl i ALLau wrth ddatblygu a gweithredu cynlluniau monitro a gwerthuso. | Adolygu canlyniadau monitro a gwerthuso ar lefel prosiect a rhaglen      |
| Monitro blynyddol   | Darparu gwybodaeth tuag at adroddiad cynnydd blynyddol.<br><br>Paratoi Adroddiadau Cynnydd Blynyddol ar gyfer prosiectau a ariennir gan LIC. | Adolygu gwybodaeth gan ALLau                                         | Cymeradwyo'r adroddiad cynnydd blynyddol a'i gyflwyno i LIC         | Cynorthwyo Rheolwr Rhaglenni'r CBC i gasglu gwybodaeth gan ALLau a pharatoi adroddiad cynnydd blynyddol | Adolygu adroddiad cynnydd blynyddol a rhoi adborth ar feysydd i'w gwella | Cefnogi gwaith adolygu adroddiadau cynnydd blynyddol a darparu adborth yn ôl yr angen.                                                                                       | Adolygu adroddiad cynnydd blynyddol a rhoi adborth ar feysydd i'w gwella |

Rhif gwaith  
Dyddiad

302160-00  
11 Chwefror 2026

| Gweithgaredd      | Swyddogion a enwir gan yr ALI                     | Rheolwr rhaglenni CBC                           | CBC                                                                                  | Arweinydd Trafnidiaeth Rhanbarthol Trafnidiaeth Cymru                               | Arweinydd Trafnidiaeth Rhanbarthol Llywodraeth Cymru | Arbenigwyr Gweithgareddau LIC a Thrafnidiaeth Cymru      | LIC                                                                                  |
|-------------------|---------------------------------------------------|-------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------|
| Gwersi a ddysgwyd | Rhoi sylw i'r gwersi a ddysgwyd ar lefel prosiect | Datblygu'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer y rhaglen | Adolygu'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer y rhaglen ac ystyried a gweithredu argymhellion | Cynorthwyo Rheolwr Rhaglenni'r CBC i ddatblygu gwersi a ddysgwyd ar gyfer y rhaglen | Adolygu'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer y rhaglen       | Cefnogi gwaith paratoi gwersi a ddysgwyd yn ôl yr angen. | Adolygu'r gwersi a ddysgwyd ar gyfer y rhaglen ac ystyried a gweithredu argymhellion |

### 3.3 Adrodd data ac amserlen (dangosol)

Nod monitro ac adrodd chwarterol ar gyfer cynlluniau y dyfarnwyd cyllid RTF 2026-27 iddynt yw darparu trosolwg o gyflawni, gwariant a risg. Mae hyn yn ceisio helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Llywodraeth Cymru a chefnogi rheoli rhaglenni rhanbarthol effeithiol. Mae'r broses yn sefydlu sylfaen dystiolaeth gyson sy'n cefnogi sicrwydd ariannol, monitro perfformiad a rheoli newid, tra'n llywio monitro a gwerthuso ehangach o'r RTP. Bydd monitro yn cael ei gynnal yn unol ag amserlen RTF. Mae trosolwg o'r gofynion ac amserlen ddangosol fel a ganlyn:

- a) **Ch1–Ch4:** Cyfarfodydd cynnydd chwarterol; cyflwyno proffiliau gwariant, amserlenni gweithgaredd, a rhagolygon proffiliau hawliadau (yn ôl amserlen RTF). Bydd tystiolaeth yn cael ei chofnodi yn yr atodiadau monitro chwarterol, wedi'u cwblhau ar gyfer pob maes gweithgaredd ar gyfer pob cynllun sydd wedi derbyn RTF 2026-27.
- b) **Diwedd y Flwyddyn:** Adroddiad Cynnydd Blynnyddol i Lywodraeth Cymru gan CBC i ddangos y cynnydd a'r perfformiad o ran cyflawni'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae hyn yn cyd-fynd â Chynllun Monitro a Gwerthuso RTP, sydd hefyd yn gofyn am Adroddiad Cynnydd Blynnyddol sy'n dangos cyflawniadau, newidiadau, cyflawni ymgysylltu, deilliannau a gwersi'r RTP.
- c) **Parhaus:** Newid rheolaeth yn ôl yr angen (traciwr canolog); archwiliadau cydymffurfio a choladu tystiolaeth.

#### Atodiadau Monitro Chwarterol

| RSP-4 |                                                             | Lefel tagfydd ar briff hwybrau                                                                     | Yn tracio amseroedd oedi cyfartalog ar y rhydwyaith ffyrdd strategol, gan nodi capasiti ffyrdd a rheolaeth traffff                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       | Oedi cyfartalog sy'n dangos amwyddion o dtagfydd ar y rhydwyaith ffyrdd strategol yn y cyfnodau prysuraf AM a PM                                                                                | Ategiol                                | Newydd / wedi'i selio ar IWA                                                     | Amseroedd teithio cyfartalog ar y rhydwyaith ffyrdd strategol                                                               | INRIX                                                                                                                                                       | Llywodraeth Cymru                         | INRIX                                                                         | Lefel genedlaethol  | Pob tair blynedd | CBC y Gogledd    | -                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | -                                          | -                                                                                                                                                                                                              | -                                                                                                                                 | Dilynwch fethodolog Fframwaith Monitro WTS ar gyfer y mesur hwn | munudau                                                                                                           | Gostwng                                                                                                                              |   |
| RSP-5 |                                                             | Damweiniau ffordd                                                                                  | Yn tracio nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu ar y rhydwyaith traffff                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | Nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu mewn damweiniau ffordd a adroddwyd                                                                                                                 | Profif                                 | Wedi'i selio ar Fframwaith Monitro WTS                                           | Nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu mewn damweiniau ffordd a adroddwyd                                             | <a href="#">Dangosfwrdd TŷW-519 Nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu ar y rhydwyaith traffff</a>                                                    | Llywodraeth Cymru                         | Ystadegau Gwladol                                                             | Lefel awurdod lleol | Blunyddol        | Awdurdodau lleol | 0 (2030)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                            | 4,447 (2022)                                                                                                                                                                                                   | Dilynwch fethodolog Fframwaith Monitro WTS ar gyfer y mesur hwn                                                                   | Rhif                                                            | Gostwng                                                                                                           |                                                                                                                                      |   |
| RSP-6 |                                                             | Cerbydau sydd ag allyriadau isel iawn neu ddim allyriadau                                          | Yn mesur canran y cerbydau sy'n bodoni safonau allyriadau isel iawn neu ddim allyriadau yn ôl math o injan, e.e. EV / hydroden / diesel / mwy, ac ati. Mae'r dangosydd hwn yn adlewyrchu'r cynnydd o ran trosgwyddo i ddrifiadaeth gheiddus ianach.                                                                                                                                                                                                                                                      | Canran y cerbydau allyriadau isel iawn neu ddim allyriadau                                                                                                                                      | Profif                                 | Dilyngwydd o'r un ar sail Fframwaith Monitro WTS                                 | Canran y cerbydau sydd ag allyriadau isel iawn neu ddim allyriadau                                                          | <a href="#">Dangosfwrdd TŷW-512 Cerbydau sydd ag allyriadau isel iawn neu ddim allyriadau</a>                                                               | Yn Adran Ddrifiadaeth a Llywodraeth Cymru | Ystadegau Gwladol                                                             | Lefel awurdod lleol | Blunyddol        | Awdurdodau lleol | 35% o gerl teithwyr (2030)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |                                            | 1.1% (2022)                                                                                                                                                                                                    | Dilynwch fethodolog Fframwaith Monitro WTS ar gyfer y mesur hwn                                                                   | %                                                               | Cynyddu                                                                                                           |                                                                                                                                      |   |
| AD-1  | Mesurau ychwanegol sy'n seiliedig ar Fframwaith Monitro WTS | Allyriadau newyn tŷ gwyr o'r sector traffff                                                        | Yn tracio'r Cilo-dunnelli o allyriadau cyferweth â charbon deuocsid (KCo2e) o gerbydau i meddyg yng Nghymru (domestig yn unig).                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | Cilo-dunnelli o allyriadau cyferweth â charbon deuocsid (KCo2e) o'r sector traffffdrifiadaeth bob dyddwyrdd                                                                                     | Profif                                 | Wedi'i selio ar Fframwaith Monitro WTS                                           | Allyriadau newyn tŷ gwyr o'r sector traffffdrifiadaeth                                                                      | <a href="#">Dangosfwrdd TŷW-516 Allyriadau newyn tŷ gwyr o'r sector traffffdrifiadaeth</a>                                                                  | DEFRA                                     | Ystadegau Gwladol                                                             | Lefel ranbarthol    | Blunyddol        | CBC y Gogledd    | 370 KCo2e (2040)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                            | 1,089 KCo2e (2029)                                                                                                                                                                                             | 5,421 KCo2e (2021)                                                                                                                | Dilynwch fethodolog Fframwaith Monitro WTS ar gyfer y mesur hwn | KCo2e                                                                                                             | Gostwng                                                                                                                              |   |
| AD-2  |                                                             | Lefel y ffyrddwyrdd aer o'r sector traffff                                                         | Yn tracio cryniadau cyfartalog ocsidau nitrogen (NOx) a mater gwynnol mân (PM10) y gellir eu priodoli i ddraffff ffyrdd, rheilffordd a hedfan.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | Cryniadau cyfartalog o NOx a PM10 y gellir eu priodoli i ddraffff ffyrdd, rheilffordd a hedfan                                                                                                  | Ategiol                                | Wedi'i selio ar Fframwaith Monitro WTS                                           | Cryniadau cyfartalog o NOx a PM10 y gellir eu priodoli i ddraffff ffyrdd, rheilffordd a hedfan                              | <a href="#">Dangosfwrdd TŷW-523 Lefel y ffyrddwyrdd aer o'r sector traffffdrifiadaeth</a>                                                                   | DEFRA                                     | NAEI Ystadegau Gwladol                                                        | Lefel awurdod lleol | Pob tair blynedd | Awdurdodau lleol | -                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | -                                          | -                                                                                                                                                                                                              | -                                                                                                                                 | Dilynwch fethodolog Fframwaith Monitro WTS ar gyfer y mesur hwn | µg/m3                                                                                                             | Gostwng                                                                                                                              |   |
| AD-3  |                                                             | Pob tŷ sy'n cael eu poeni'n rheolaidd gan swm a achosir gan ddrifiadaeth                           | Yn mesur canran y bobl sy'n cael eu poeni'n rheolaidd gan swm o'r tu allan i'r cartref a achosir gan ddrifiadaeth.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       | Canran y bobl sy'n cael eu poeni'n rheolaidd gan swm o'r tu allan i'r cartref a achosir gan ddrifiadaeth                                                                                        | Wedi'i selio ar Fframwaith Monitro WTS | Wedi'i selio ar Fframwaith Monitro WTS                                           | Canran y bobl sy'n cael eu poeni'n rheolaidd gan swm o'r tu allan i'r cartref a achosir gan ddrifiadaeth                    | <a href="#">Dangosfwrdd TŷW-524 Canran y bobl sy'n cael eu poeni'n rheolaidd gan swm o'r tu allan i'r cartref a achosir gan ddrifiadaeth</a>                | Trafidiadaeth Cymru                       | Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru                                             | Lefel ranbarthol    | Pob tair blynedd | CBC y Gogledd    | -                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | -                                          | -                                                                                                                                                                                                              | -                                                                                                                                 | Dilynwch fethodolog Fframwaith Monitro WTS ar gyfer y mesur hwn | Sgôr (Bodion/antodfoni)                                                                                           | Gostwng                                                                                                                              |   |
| AD-4  |                                                             | Seilwaith arddiadaeth sydd mewn perygl o llofgod                                                   | Yn tracio ffyrdd a rheilffyrdd strategol a lleol sydd mewn perygl isel, canolig ac uchel o llofgod, y mŵr a dŵr newydd a chysylltu dŵr bach.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Ffyrdd lleol sydd mewn perygl isel, canolig ac uchel o llofgod                                                                                                                                  | Ategiol                                | Wedi'i selio ar Fframwaith Monitro WTS                                           | Ffyrdd lleol sydd mewn perygl isel, canolig ac uchel o llofgod                                                              | <a href="#">Dangosfwrdd TŷW-522 Canran y seilwaith traffffdrifiadaeth sydd mewn perygl o llofgod</a>                                                        | Trafidiadaeth Cymru                       | ddata a ghehoedwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru                                 | Lefel awurdod lleol | Pob tair blynedd | Awdurdodau lleol | -                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | -                                          | -                                                                                                                                                                                                              | -                                                                                                                                 | Dilynwch fethodolog Fframwaith Monitro WTS ar gyfer y mesur hwn | Sgôr (Isel-canolig-uchel)                                                                                         | Gostwng                                                                                                                              |   |
| AD-5  |                                                             | Owella a chynnal a chadw cynnyddol                                                                 | Yn tracio'r Hectara o gmetin gaff eu cynnal neu eu gwellia ar y rhydwyaithau ffyrdd a rheilffordd yng Nghymru. Cyfnewidiad Llywodraeth Cymru yw bioamrywiaeth ar y rhydwyaith ffyrdd strategol. Mae bioamrywiaeth ar y rhydwyaith ffyrdd lleol yn gyfrifoleb i awdurdodau lleol. Mae Traffffdrifiadaeth Cymru yn gyfrifol am foamrywiaeth ar y rhydwyaith rheilffordd Llinellau Creadig y Cymoedd, tua bod Network Rail yn gyfrifol am foamrywiaeth ar y rhydwyaith o'r fforddau a rheilfforddau eraill. | Sawli hectar o gmetin gaff eu cynnal neu eu gwellia ar y rhydwyaithau ffyrdd a rheilffordd yng Nghymru                                                                                          | Ategiol                                | Wedi'i selio ar Fframwaith Monitro WTS                                           | Sawli hectar o gmetin gaff eu cynnal neu eu gwellia ar y rhydwyaithau ffyrdd a rheilffordd yng Nghymru                      | <a href="#">Dangosfwrdd TŷW-525 Yn ystod ddrifiadaeth a gaff eu cynnal neu eu gwellia ar y rhydwyaithau ffyrdd a rheilffordd</a>                            | Llywodraeth Cymru                         | Data Monitro Trafidiadaeth Cymru                                              | Lefel ranbarthol    | Pob tair blynedd | CBC y Gogledd    | -                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | -                                          | -                                                                                                                                                                                                              | -                                                                                                                                 | Dilynwch fethodolog Fframwaith Monitro WTS ar gyfer y mesur hwn | hectarau o gmetin                                                                                                 | Cynyddu                                                                                                                              |   |
| AD-6  |                                                             | Aseadu hanesyddol dyfodol ar y ystyd ddrifiadaeth i'w gwellia                                      | Yn mesur canran y hanesyddol hanesyddol a'r henebion cofrestrdd ar y ystyd ddrifiadaeth (rhydwyaith ffyrdd a rheilffordd) yng Nghymru, neu o fewn 5 metr iddi, sydd mewn cyflwr sefydlog neu'n gwellia.                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Canran y aseadu hanesyddol dyfodol ar y ystyd ddrifiadaeth sydd mewn cyflwr sefydlog neu'n gwellia                                                                                              | Ategiol                                | Wedi'i selio ar Fframwaith Monitro WTS                                           | Canran y aseadu hanesyddol dyfodol ar y ystyd ddrifiadaeth sydd mewn cyflwr sefydlog neu'n gwellia                          | <a href="#">Dangosfwrdd TŷW-527 Canran y aseadu hanesyddol dyfodol ar y ystyd ddrifiadaeth sydd mewn cyflwr sefydlog neu'n gwellia</a>                      | CADW                                      | Data Monitro Trafidiadaeth Cymru                                              | Lefel awurdod lleol | Pob tair blynedd | Awdurdodau lleol | -                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | -                                          | -                                                                                                                                                                                                              | -                                                                                                                                 | Dilynwch fethodolog Fframwaith Monitro WTS ar gyfer y mesur hwn | %                                                                                                                 | Cynyddu                                                                                                                              |   |
| AD-7  |                                                             | Gwastraff a gynhyrchir gan y sector traffffdrifiadaeth sy'n cael ei allddefnyddio neu ei ailgylchu | Yn mesur cyfaint y gwastraff a ddaw o'r sector traffffdrifiadaeth sy'n cael ei allddefnyddio neu ei ailgylchu.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | Canran y gwastraff a gynhyrchir gan y sector traffffdrifiadaeth sy'n cael ei allddefnyddio neu ei ailgylchu                                                                                     | Ategiol                                | Wedi'i selio ar Fframwaith Monitro WTS                                           | Canran y gwastraff a gynhyrchir gan y sector traffffdrifiadaeth sy'n cael ei allddefnyddio neu ei ailgylchu                 | <a href="#">Dangosfwrdd TŷW-526 Canran y gwastraff a gynhyrchir gan y sector traffffdrifiadaeth sy'n cael ei allddefnyddio neu ei ailgylchu</a>             | Cyfoeth Naturiol Cymru                    | Dwyfediad a Masnachol a Gynhyrchir y Nghymru                                  | Lefel ranbarthol    | Pob tair blynedd | CBC y Gogledd    | -                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | -                                          | -                                                                                                                                                                                                              | -                                                                                                                                 | Dilynwch fethodolog Fframwaith Monitro WTS ar gyfer y mesur hwn | %                                                                                                                 | Gostwng                                                                                                                              |   |
| AD-8  |                                                             | Owasanaethau Cymraeg yn y sector traffffdrifiadaeth                                                | Yn adnabod canran y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn y sector traffffdrifiadaeth, wedi'i ranu yn ôl dulliau traffffdrifiadaeth (yn enwedig cludiant cyhoeddus) ac yn ôl rhai nodweddion gwasanaethol, gan gynnwys oedran, rhyw a'r holl fforddau a rheilfforddau cenedlaethol.                                                                                                                                                                                                   | Canran y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn y sector traffffdrifiadaeth                                                                                                   | Ategiol                                | Wedi'i selio ar Fframwaith Monitro WTS                                           | Canran y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn y sector traffffdrifiadaeth                               | <a href="#">Dangosfwrdd TŷW-515 Canran y siaradwyr Cymraeg yn ystod ddrifiadaeth a gaff eu cynnal neu eu gwellia ar y rhydwyaithau ffyrdd a rheilffordd</a> | Llywodraeth Cymru                         | Data Monitro Trafidiadaeth Cymru                                              | Lefel ranbarthol    | Pob tair blynedd | CBC y Gogledd    | -                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | -                                          | -                                                                                                                                                                                                              | -                                                                                                                                 | Dilynwch fethodolog Fframwaith Monitro WTS ar gyfer y mesur hwn | %                                                                                                                 | Cynyddu                                                                                                                              |   |



---

**ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL  
13 Gorffennaf, 2026**

---

**TEITL:** Archwiliad Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol

**AWDUR:** Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth

---

**1. DIBEN YR ADRODDIAD**

- 1.1. Hysbysu'r Aelodau am archwiliad o Gynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru ym mis Mai a mis Mehefin 2026.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

- 2.1. Dim penderfyniad. Gofynnir i'r aelodau nodi'r adroddiad.

**3. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

- 3.1. Cysylltodd Archwilio Cymru â Phrif Weithredwr Uchelgais Gogledd Cymru ynglŷn â'r cyfle i gynnal archwiliad o'r broses o gynllunio trafndiaeth ranbarthol yng Ngogledd Cymru, a fyddai'n ystyried datblygiad a chymeradwyaeth y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP), blaenoriaethu a chytuno ar raglen y Gronfa Drafndiaeth Ranbarthol (RTF), a'r llywodraethu sy'n cefnogi'r prosesau hynny. Cynhaliwyd yr archwiliad ym misoedd Mai a Mehefin 2026.

**4. AMCAN A SGÔP YR ARCHWILIAD**

- 4.1. Amcan yr archwiliad oedd asesu a yw Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi rhoi trefniadau effeithiol ar waith i gyflawni ei ddyletswyddau statudol i gynllunio trafndiaeth ranbarthol a darparu gwerth am arian. Roedd yn canolbwyntio ar p'un a yw ei drefniadau rheoli cynllunio, adnoddau a pherfformiad yn gweithredu'n unol â'r bwriad.
- 4.2. Ni wnaeth yr archwiliad ystyried prosiectau trafndiaeth unigol, darpariaeth gwasanaethau gweithredol, gwaith archwilio ariannol manwl, na swyddogaethau y Cyd-bwyllgor Corfforedig nad ydynt yn gysylltiedig.
- 4.3. Cynhaliwyd yr archwiliad dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**5. CWESTIYNAU**

- 5.1. Ystyriodd yr archwiliad y cwestiwn cyffredinol "A yw Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i gyflawni ei ddyletswyddau statudol i gynllunio trafndiaeth ranbarthol a darparu gwerth am arian?"
- 5.2. Roedd y cwestiynau manylach yn cynnwys:

- A yw'r Cyd-bwyllgor wedi diffinio'n glir ei gyfrifoldebau, ei amcanion a'i flaenoriaethau statudol ar gyfer cynllunio trafnidiaeth ranbarthol?
- A yw'r Cyd-bwyllgor wedi rhoi trefniadau cymesur ar waith i gynllunio, blaenoriaethu a darparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch trafnidiaeth ranbarthol?
- Oes yna drefniadau cadarn i reoli'r modd y caiff rhaglenni eu cyflawni, i fonitro cynnydd ac i adrodd ar berfformiad yn erbyn yr amcanion y cytunwyd arnynt?

## 6. CASGLU DATA

- 6.1 Gofynnodd Archwilio Cymru am gyfres o ddogfennau i'w hadolygu, ac fe'u heliwyd ynghyd a'u rhannu gan swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru.
- 6.2 Cynhaliwyd nifer o gyfweiliadau hefyd a oedd yn cynnwys:
- Cadeirydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol
  - Prif Weithredwr Uchelgais Gogledd Cymru
  - Cyfarwyddwr Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru
  - Swyddog Monitro Uchelgais Gogledd Cymru
  - Swyddog Adran 151
  - Uwch Swyddog Trafnidiaeth Uchelgais Gogledd Cymru
  - Yr ymgynghorydd a weithiodd ar y rhaglen RTP ac RTF
  - Arweinydd Cynllunio Strategol Uchelgais Gogledd Cymru
  - Cynrychiolydd o Drafnidiaeth Cymru

## 7. AMSERLENNI ADRODD

- 7.1 Disgwylir yr adroddiad cychwynnol gan Archwilio Cymru ddiwedd mis Mehefin neu ddechrau mis Gorffennaf. Yna, bydd Uchelgais Gogledd Cymru'n cael cyfle i adolygu'r adroddiad ac ymateb iddo ac i unrhyw argymhellion.
- 7.2 Nid oedd yr amserlenni hynny'n caniatáu i ni gynnwys ystyriaeth fanwl o'r adroddiad archwilio yn y papurau hyn ar gyfer yr Is-bwyllgor, ond y bwriad yw cyflwyno'r dadansoddiad a'r manylion hyn i gyfarfod yn y dyfodol.
- 7.3 Ar ôl ei gwblhau, bydd yr adroddiad archwilio ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru.

## 8. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 8.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol sy'n deillio o'r adroddiad hwn.

## 9. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

- 9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol sy'n deillio o'r adroddiad hwn.

---

### ATODIADAU:

Amh.

---

### YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

**i. Swyddog Monitro:**

“Mae'r adroddiad ar gyfer nodi ac yn rhoi diweddariad ar adolygiad Archwilio Cymru o drefniadau cynllunio trafndiaeth rhanbarthol y CBC. Gan nad oes unrhyw benderfyniad yn cael ei geisio ar hyn o bryd, nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol cyfredol.

Unwaith y bydd adroddiad Archwilio Cymru wedi'i dderbyn a'i gwblhau, dylid ystyried unrhyw argymhellion neu gamau gwella drwy drefniadau llywodraethu priodol y CBC, gyda pherchnogaeth, amserlenni a llinellau adrodd clir. Dylid nodi unrhyw oblygiadau cyfansoddiadol, ariannol neu ran adnoddau sy'n deillio o ganfyddiadau'r archwiliad ar y cam hwnnw.”

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

“Roedd yr archwiliad yma wedi ei gynnwys yng nghynllun archwilio perfformiad Archwilio Cymru a gyflwynwyd i'r Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 4 Mehefin 2026.”



---

**IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL  
13 Gorffennaf, 2026**

---

**TEITL:** Trefniadau Gwneud Penderfyniadau ar gyfer Rheoli'r Gronfa Drafnidiaeth  
Ranbarthol yn ystod y Flwyddyn

**AWDUR:** Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth

---

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

**1.1** Pwrpas yr adroddiad hwn yw:

- hysbysu'r Is-bwyllgor am y disgwyliad a roddir ar y Cyd-bwyllgor ynghylch rheoli rhaglen o brosiectau'r Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol ledled Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn, ac
- argymhell i'r Cyd-bwyllgor gadarnhau awdurdod dirprwyedig ar gyfer penderfyniadau ynghylch newidiadau i'r rhaglen yn ystod y flwyddyn

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

**2.1** Gofynnir i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol argymhell i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig y dylid dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol, y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid ac arweinwyr trafndiaeth awdurdodau lleol perthnasol, i gymeradwyo a chyflwyno ceisiadau am newid rhanbarthol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â rheolaeth y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol yn ystod y flwyddyn.

**2.2** Dylai'r Is-bwyllgor nodi mai Llywodraeth Cymru fydd yn parhau i wneud penderfyniadau grant terfynol y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol.

**3. RHESWM AM Y PENDERFYNIAD**

**3.1** Bydd y penderfyniad hwn yn ein galluogi i wneud penderfyniadau mwy effeithlon ac amserol ynghylch newidiadau i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn ac yn gwneud y mwyaf o fanteision cyllid y Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol i Ogledd Cymru.



#### **4. CEFNDIR**

- 4.1 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTP) yn nodi'r polisïau sy'n siapio buddsoddiad mewn trafndiaeth yng Ngogledd Cymru. Fe'i cymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor ym mis Gorffennaf 2025 a daeth yn bolisi ar ôl cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2025.
- 4.2 Roedd y polisïau'r RTP yn dylanwadu ar y cynlluniau a gynhwyswyd yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (RTDP) a gymeradwywyd/mabwysiadwyd law yn llaw â'r RTP. Mae llawer o'r cyllid sydd ei angen i gyflawni cynlluniau RTDP yn debygol o ddod o Gronfa Drafndiaeth Rhanbarthol (RTF) Llywodraeth Cymru.
- 4.3 Yn unol ag amserlenni Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd rhaglen o gynlluniau ar gyfer cyllid RTF yn 2026/27 i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2026 ar ôl iddi gael ei chymeradwyo gan yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol ac yna'r Cyd-bwyllgor.
- 4.4 Ym mis Mawrth 2026, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru y rhaglen o gynlluniau a chyflwyno llythyr o gynnig ar gyfer pob cynllun i'r awdurdod lleol perthnasol. Gellir dechrau cyflwyno'r cynlluniau hynny o fis Ebrill 2026. Ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, mae'r cyllid yn mynd yn uniongyrchol i awdurdodau lleol.

#### **5. CANLLAWIAU GWEITHREDU LLYWODRAETH CYMRU**

- 5.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Chanllawiau Gweithredu RTF 2026/27 i'r Cyd-bwyllgor ar 18 Mai 2026. Mae hyn yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer awdurdodau lleol a'r Cyd-bwyllgor wrth reoli Rhaglen y Gronfa Drafndiaeth Rhanbarthol yn y flwyddyn ariannol gyfredol.
- 5.2 Mae hyn yn cynnwys y broses ar gyfer gwneud unrhyw newidiadau i'r rhaglen, e.e. mewn achos o danwariant neu orwariant. Mae'r canllawiau yn nodi:

*"Er y dylai Awdurdodau Lleol unigol adrodd am danwariant a gorwariant bob chwarter, ni fydd unrhyw newidiadau i ddyraniadau cynlluniau yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru oni bai bod ceisiadau am newid yn cael eu cytuno a'u cyflwyno ar y cyd gan Awdurdodau fel rhanbarth drwy'r Cyd-bwyllgor. Gellir cyflwyno ceisiadau am newid ar unrhyw adeg drwy'r flwyddyn.*

*Byddem yn disgwyl i unrhyw geisiadau newid a gyflwynir, fod wedi cael eu cytuno ar y cyd fel rhanbarth drwy'r Cyd-bwyllgor cyn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hystyried."*

- 5.3 Felly, os oes angen newid gwariant cynllun, rhaid i'r rhanbarth wneud argymhelliad i Lywodraeth Cymru bod newid yn cael ei wneud. Yna bydd trafodaeth rhwng swyddogion yr awdurdod lleol, swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru, a gweision sifil cyn i unrhyw benderfyniad cymeradwyo gael ei wneud gan Lywodraeth Cymru.
- 5.4 Os cymeradwyir y newid, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi llythyrau cynnig diwygiedig i'r awdurdodau lleol a bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cyflwyno ffurflenni diwygiedig i Lywodraeth Cymru.
- 5.5 Mae'r broses hon yn golygu ei bod yn hanfodol gwneud penderfyniadau rhanbarthol sy'n effeithlon ac yn gallu ymateb i unrhyw bryderon sy'n dod i'r amlwg.



**6. ROLAU'R CYD-BWYLLGOR A'R IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL**

- 6.1 Mae adran 5.8 Cyfansoddiad y Cyd-bwyllgor yn nodi'r hyn a ganlyn o ran yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol

*"Bydd y Cyd-bwyllgor yn penodi Is-bwyllgor a elwir yn Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol - ("Swyddogaeth Trafnidiaeth Strategol") i wireddu'r swyddogaeth i baratoi a monitro polisiâu trafndiaeth dan adrannau 108(1)(a) a (2A)(a) Rhan 2 Deddf Trafnidiaeth 2000 neu unrhyw swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor sy'n ategol neu'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny.*

- 6.2 Felly, mae'r Cyd-bwyllgor wedi gwneud trefniadau i'r is-bwyllgor gyflawni swyddogaethau trafndiaeth strategol penodol. Mae'r is-bwyllgor yn cydlynu'r broses o raglennu rheoli a chyflawni'r RTDP o fewn y gyllideb, ynghyd â'i fonitro a'i adolygu.
- 6.3 Caiff yr is-bwyllgor drefnu i unrhyw un o'r swyddogaethau hynny gael eu harfer gan aelod o staff (oni bai bod y Cyd-bwyllgor wedi cyfarwyddo fel arall).

**7. AMSERLEN YR IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL**

- 7.1 Mae'r Is-bwyllgor wedi trefnu dyddiadau cyfarfodydd ym mis Gorffennaf, Tachwedd a Chwefror. Mae gan bob un o'r cyfarfodydd hynny amser arweiniol ar gyfer paratoi adroddiadau. Er bod hyn yn llywodraethu effeithiol, nid yw'n darparu'r hyblygrwydd a allai fod ei angen i reoli newidiadau i'r rhaglen yn ystod y flwyddyn, yn enwedig tua diwedd y flwyddyn ariannol.

**8. AWDURDOD DIRPRWYEDIG**

- 8.1 Bydd y ddirprwyaeth y gofynnir amdani wedi'i chyfyngu i newidiadau sy'n gyson â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol cymeradwy, y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol cymeradwy, canllawiau RTF Llywodraeth Cymru a'r telerau ac amodau cyllido grant perthnasol, gan gynnwys ailddyrrannu cyllid rhwng cynlluniau cymeradwy, amnewid o restr wrth gefn gymeradwy pan fo risgiau cyflawni'n codi, ac addasiadau sydd eu hangen i wneud y mwyaf i gyflawni o fewn amserlenni cyllid.
- 8.2 Er mwyn osgoi amheuaeth, ni chaiff y ddirprwyaeth awdurdodi cymeradwyo neu adolygu polisi trafndiaeth, unrhyw wriad perthnasol o'r RTP/RTDP cymeradwy, cyflwyno cynllun newydd y tu allan i'r rhaglen gymeradwy neu wrth gefn lle byddai hyn yn codi materion polisi, nac unrhyw ddiwygiad i raglen gyfalaf y Cyd-bwyllgor ei hun sydd angen cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor o dan y Rheolau Gweithdrefn Ariannol.
- 8.3 Bydd pob penderfyniad a wneir o dan y ddirprwyaeth hon yn cael ei gofnodi'n ysgrifenedig, gyda rhesymau, ac yn cael ei adrodd i'r cyfarfod nesaf o'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol ac, lle bo hynny'n briodol, i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

**9. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

- 9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i gyllidebau'r Cyd-bwyllgor sy'n deillio o'r adroddiad hwn.



**10. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

- 10.1 Ymgynghorwyd â'r Swyddog Monitro wrth ysgrifennu'r adroddiad ac mae wedi cyngori ar agweddau cyfansoddiadol a natur y ddirprwyaeth.

---

**ATODIADAU:**

Amh.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro:**

“Mae'r argymhelliad yn gyfreithiol ac yn gyfansoddiadol gefnogadwy, ar yr amod ei fod yn cael ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn cael ei weithredu o fewn y terfynau a nodir yn yr adroddiad.

Dylid trin y ddirprwyaeth fel mecanwaith rheoli rhaglenni gweithredol ar gyfer cyflwyno ceisiadau rhanbarthol am newid i Lywodraeth Cymru. Nid yw'n awdurdodi newidiadau i bolisi trafndiaeth, gwiriadau sylweddol o'r RTP/RTDP cymeradwy, ac ati.

Dylid cofnodi penderfyniadau a wneir o dan y ddirprwyaeth yn ysgrifenedig, ynghyd â'r rhesymau drostynt, yn dilyn yr ymgynghoriad gofynnol, a'u hadrodd i'r cyfarfod nesaf o'r Is-bwyllgor ac, lle bo hynny'n briodol, i'r CBC. Yn amodol ar y mesurau diogelu hynny, nid oes unrhyw faterion cyfreithiol pellach yn codi.”

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

“Rwy'n fodlon nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r penderfyniad a geisir. Bydd yr Is-bwyllgor Trafndiaeth Strategol yn dymuno ystyried i ba raddau y mae'r ddirprwyaeth arfaethedig yn cynnig cydbwysedd priodol rhwng atebolrwydd a'r angen i gael prosesau gwneud penderfyniadau ystwyth a wedi'i liflinio.”